

# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom	<b>Gareth Williams</b>
Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddDCC@cynulliad.cymru">SeneddDCC@cynulliad.cymru</a>

---

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00–09.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
09:30
- 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**  
09:30–09:35

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

- 2.1 SL(5)537 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 1 – 12)

CLA(5)–12–20 – Papur 1 – Adroddiad

CLA(5)–12–20 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)–12–20 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–12–20 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, 8 Ebrill 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol



**2.2 SL(5)534 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 13 – 30)

CLA(5)–12–20 – Papur 5 – Adroddiad

CLA(5)–12–20 – Papur 6 – Rheoliadau

CLA(5)–12–20 – Papur 7 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–12–20 – Papur 8 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Llywydd, 3 Ebrill 2020

**3 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7**

09:35–09:40

(Tudalen 31)

CLA(5)–12–19 – Papur 9 – Is-ddeddfwriaeth gydag adroddiadau clir

**3.1 SL(5)536 – Deddf Erthylu 1967– Cymeradwyo Man Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2020**

**4 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7**

09:40–09:45

**4.1 SL(5)535 – Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws**

(Tudalennau 32 – 36)

CLA(5)–12–20 – Papur 10 – Adroddiad

CLA(5)–12–20 – Papur 11 – Datganiad

**4.2 C(5)040 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 37 – 41)

CLA(5)–12–20 – Papur 12 – Adroddiad

CLA(5)–12–20 – Papur 13 – Rheoliadau

**5 Adroddiad Gorchymyn Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Fframweithiau Cyffredin**

09:45–09:50

(Tudalennau 42 – 62)

CLA(5)–12–20 – Papur 14 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–12–20 – Papur 15 – Adroddiad

**6 Papur(au) i'w nodi**

09:50–09:55

**6.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

(Tudalennau 63 – 85)

CLA(5)–12–20 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 23 Mawrth 2020

CLA(5)–12–20 – Papur 17 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 23 Mawrth 2020

CLA(5)–12–20 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 23 Mawrth 2020

**6.2 Llythyr gan y Llywydd: Swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

(Tudalennau 86 – 88)

CLA(5)–12–20 – Papur 19 – Llythyr gan y Llywydd, 9 Ebrill 2020

CLA(5)–12–20 – Papur 20 – Llythyr at y Llywydd, 2 Ebrill 2020

**6.3 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Fforwm Masnach Gweinidogol**

(Tudalen 89)

CLA(5)–12–20 – Papur 21 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 21 Ebrill 2020

**6.4 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 90 – 102)

CLA(5)-12-20 – Papur 22 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 24 Ebrill 2020

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

09:55

**8 Y flaenraglen waith – trafodaeth**

09:55-10:20

(Tudalennau 103 – 107)

CLA(5)-12-20 – Papur 23 – Papur trafod

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach – dull o gynnal gwaith craffu**

10:20-10:30

(Tudalennau 108 – 128)

CLA(5)-12-20 – Papur 24 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

CLA(5)-12-20 – Papur 25 – Briff Ymchwil

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Mai 2020 (i'w gadarnhau)**

# SL(5)537 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020

## Item 2.1

### Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau, sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon, godi tâl am bob bag a gyflenwir. Fodd bynnag, mae Atodlen 1 i Reoliadau 2010 yn esemptio rhai mathau o fagiau untro rhag y tâl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2010 i esemptio bagiau a ddefnyddir yn unig ar gyfer danfon neu gasglu nwyddau groser rhag y tâl. Bydd hwn yn esemptiad dros dro, am gyfnod o dri mis o'r dyddiad y daw'r rheoliadau hyn i rym.

### Gweithdrefn

Negyddol.

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

#### **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

1. Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a nodwn hefyd yr esboniad am dorri'r rheol honno a ddarparwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, i'r Llywydd mewn llythyr dyddiedig 8 Ebrill 2020. Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud am y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cawsant eu gwneud:

*"Gwnaed a gosodwyd Rheoliadau 2020 cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar sail iechyd cyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg i staff cludo cartref a chwsmeriaid eraill o ledaenu neu ddal COVID-19 yn ystod danfoniadau i gartrefi. O ganlyniad, maent wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.*

*Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 9 Ebrill 2020, ac oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, credir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol."*



## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

---

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

---

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**20 Ebrill 2020**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

National Assembly for Wales

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Tudalen y pecyn 2**

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 414 (Cy. 89)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau  
Siopa Untro (Cymru) (Diwygio)  
2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ac maent yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2880 (Cy. 238)) ("Rheoliadau 2010").

Mae Rheoliadau 2010, yn ddarostyngedig i esemptiadau penodol, yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon godi tâl am bob bag a gyflenwir.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 (Esemptiadau) i Rheoliadau 2010, drwy fewnosod darpariaeth newydd i esemptio bagiau a ddefnyddir i gludo nwyddau a brynir i'w danfon yn rhan o wasanaeth danfon nwyddau groser, neu i'w casglu yn rhan o wasanaeth sy'n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser, rhag y tâl. Gweithredir yr esemptiad newydd yn ddarostyngedig i derfyn amser o dri mis.

Diben yr esemptiad dros dro yw cynyddu effeithlonrwydd systemau danfon, a lliniaru cyhyd ag y bo modd, y risg o drosglwyddo feirws COVID-19 (coronafeirws) drwy systemau danfon a chasglu, drwy ddefnyddio bagiau siopa untro i gludo nwyddau.

Oherwydd natur frys yr offeryn ni fu'n bosibl llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Effaith ar Fusnes. Er hynny, mae anghenion busnesau ac, yn benodol, y sector manwerthu wedi llywio i raddau helaeth y gwaith o baratoi'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 414 (Cy. 89)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau  
Siopa Untro (Cymru) (Diwygio)  
2020**

*Gwnaed* am 12.45 p.m ar 8 Ebrill 2020

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* am 5.30 p.m ar 8 Ebrill 2020

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 77(1) a (2) a 90(3) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008(1), a pharagraff 1 o Atodlen 6 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

**Diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**

2. Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010(2) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

**Diwygio Atodlen 1**

3. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1—

- 
- (1) 2008 p. 27. Yn rhinwedd adran 77(3)(b) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol at ddiben gwneud rheoliadau o dan Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau i adran 77 ac Atodlen 6 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (2) O.S. 2010/2880 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/2184 (Cy. 236); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.



- (a) yn is-baragraff (1), ar y diwedd mewnosoder—

“(1) yn ddarostyngedig i is-baragraff (1A), bagiau y bwriedir iddynt gael eu defnyddio yn unig at ddiben cludo nwyddau a brynir—

- (i) i’w danfon yn rhan o wasanaeth danfon nwyddau groser; neu
- (ii) i’w casglu yn rhan o wasanaeth sy’n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser.”;

- (b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Dim ond tan ganol nos ar 8 Gorffennaf 2020 y mae bagiau sy’n dod o fewn paragraff (1) o is-baragraff (1) wedi eu hesemptio rhag y tâl o dan reoliad 6.”

*Hannah Blythyn*

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru  
Am 12.45 p.m ar 8 Ebrill 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020.

Hannah Blythyn  
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol  
8 Ebrill 2020

## **1. Disgrifiad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 fel nad yw'r gofyniad i godi tâl am fagiau siopa untro o dan y Rheoliadau hynny yn gymwys i'r bagiau hynny a ddefnyddir dim ond i gludo nwyddau a brynir i'w danfon yn rhan o wasanaeth danfon nwyddau groser, neu i'w casglu yn rhan o wasanaeth sy'n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser.

Esemptiad dros dro fydd hwn o'r tâl am fagiau siopa untro, a bydd yn peidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod o dri mis o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Dim ond drwy wneud is-ddeddfwriaeth bellach y ceir estyn y cyfnod o dri mis.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Yn yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol, ystyrir y dylai'r mesur a roddir mewn grym gan y Rheoliadau hyn gael ei roi yn ei le ar fyrder. O ganlyniad, maent yn dod i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir, ac nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai llai na 21 diwrnod fynd heibio rhwng gosod y Rheoliadau a'r dyddiad y deuant i rym.

## **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau yn adrannau 77 a 90 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ("Deddf 2008"), ac Atodlen 6 iddi, ac maent yn gwneud diwygiadau i Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2880 (Cy. 238)) ("Rheoliadau 2010"). Yn rhinwedd gweithrediad adran 77(4) a (5) o Ddeddf 2008, maent yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol.

## **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

### Y Cefndir

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodol, mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau, sy'n cyflenwi bagiau siopa untro er mwyn cario'r nwyddau hynny i ffwrdd neu er mwyn eu danfon, godi tâl am bob bag o'r fath a gyflenwir. Gallai

pob math o fag siopa untro fod yn agored i'r tâl, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u gwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol o unrhyw fath o blastig, papur neu unrhyw fath o ddeunydd planhigion neu startsh naturiol. Serch hynny, mae Atodlen 1 i Reoliadau 2010 yn esemptio mathau penodol o fagiau siopa untro a ddisgrifir yn yr Atodiad o'r tâl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2010 er mwyn esemptio bagiau a ddefnyddir dim ond i ddanfôn neu gasglu nwyddau groser o'r tâl. Esemptiad dros dro fydd hwn, am gyfnod o dri mis o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Ers cyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro, mae llawer o archfarchnadoedd naill ai wedi gosod tâl cyfradd safonol am unrhyw fagiau a ddefnyddir wrth ddanfôn nwyddau groser i gartrefi neu wedi cael gwared â bagiau yn llwyr wrth ddanfôn nwyddau groser i gartrefi, gan ffafrio defnyddio opsiwn "di-fag" (pan gaiff eitemau unigol eu danfôn mewn crât ac yna eu dadlwytho gan y cwsmer yn ei gartref).

Yn ystod y pandemig COVID-19 presennol, mae pryderon wedi'u codi ynghylch danfoniadau "di-fag" gan fod perygl i'r feirws gael ei drosglwyddo rhwng y gyrrwr a'r cwsmer. I helpu i leihau'r perygl hwnnw, mae manwerthwyr nawr wedi dileu'r opsiwn "di-fag" o'u gwasanaeth ac yn hytrach, pan fo'n bosibl, maent yn gadael nwyddau mewn bagiau ar garreg y drws i osgoi cysylltiad.

Serch hynny, roedd manwerthwyr yn pryderu y byddent, drwy wneud hyn, i bob pwrpas yn "gorfodi" pob cwsmer i dalu am fag na fyddent efallai fel arfer wedi'i ddewis. Felly penderfynodd y manwerthwyr dalu am y tâl am fagiau siopa eu hunain. Roedd hyn yn peri pryder cyfreithiol gan nad oeddent yn codi tâl ar gwsmeriaid am fagiau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2010.

I ddelio â'r materion hyn, cytunodd Llywodraeth Cymru, ar ôl trafod â Llywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a chynrychiolwyr sector manwerthu Cymru, i gyflwyno esemptiad dros dro o'r tâl, ar gyfer bagiau siopa untro a ddefnyddir dim ond i gludo nwyddau a brynir i'w danfôn yn rhan o wasanaeth danfôn nwyddau groser, neu i'w casglu yn rhan o wasanaeth sy'n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser. Diben yr esemptiad dros dro felly yw gwneud systemau danfôn yn fwy effeithlon a lleihau, cymaint â phosibl, y perygl o drosglwyddo feirws COVID-19 drwy systemau danfôn a chasglu, gan ddefnyddio bagiau siopa untro i gario nwyddau (yn hytrach na chrât). Mae hefyd yn lleihau'r perygl o her gyfreithiol yn erbyn manwerthwyr nad oedd yn codi tâl ar eu cwsmeriaid am fagiau.

## **5. Ymgynghori**

O dan yr amgylchiadau, nid oedd modd i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y newidiadau hyn. Serch hynny, mae trafodaethau wedi bod â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, ac â chynrychiolwyr allweddol o sector manwerthu Cymru a oedd yn cefnogi'r newid.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Oherwydd natur frys yr offeryn ni fu'n bosibl llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Effaith ar Fusnes. Er hynny, mae anghenion busnesau ac, yn benodol, y sector manwerthu wedi llywio i raddau helaeth y gwaith o lunio'r Rheoliadau hyn.

### **Profion effaith penodol**

#### **Y Gymraeg**

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

#### **Hawliau Plant**

Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc.

#### **Preifatrwydd**

Nid oes goblygiadau o ran effaith ar faterion preifatrwydd.

#### **Asesiad Effaith Cyfiawnder**

Er nad oes Asesiad Effaith Cyfiawnder ffurfiol wedi'i gynnal, ni nodwyd effaith wrth ystyried y Rheoliadau hyn.

## **Asesu'r Gystadleuaeth**

<b>Prawf hidlo'r gystadleuaeth</b>	
<b>Cwestiwn</b>	<b>Ateb cadarnhaol neu negyddol</b>
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar gynaliadwyedd rhai cwmnïau yn fwy nag eraill?	Na fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliad?	Nac ydyw
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A yw'r sector yn gweld newidiadau technolegol cyflym?	Nac ydyw
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai



Ein cyf/Our ref MA-HB-1207-20

Elin Jones AC  
Y Llywydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

8 Ebrill 2020

Annwyl Lywydd,

### **Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"), sy'n gosod dyletswydd ar bob manwerthwr i godi isafswm o 5c am bob bag siopa untro newydd a werthir i alluogi cludo nwyddau o'u siopau, gan gynnwys bagiau a ddefnyddir i ddanfôn nwyddau i gartrefi neu i gasglu nwyddau. Mae bagiau a ddefnyddir at rai dibenion wedi'u heithrio o'r angen i godi tâl.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau 2010 trwy fewnosod eithriad ychwanegol yn Atodlen 1, Paragraff 1 i eithrio bagiau siopa untro a ddefnyddir at ddibenion cludo nwyddau a brynwyd fel rhan o wasanaeth dosbarthu neu gasglu nwyddau groser yn unig.

Gwnaed a gosodwyd Rheoliadau 2020 cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar sail iechyd cyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg i staff cludo cartref a chwsmeriaid eraill o ledaenu neu ddal COVID-19 yn ystod danfoniadau i gartrefi. O ganlyniad, maent wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 9 Ebrill 2020, ac oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, credir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)  
[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AC/AM**

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd



# SL(5)534 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Item 2.2

### Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), a daethant i rym am 12.01 a.m. ar 7 Ebrill 2020.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 5, 7 ac 8 o'r prif Reoliadau, yn mewnosod rheoliadau newydd 6A a 7A yn y prif Reoliadau, ac yn gwneud mân ddiwygiadau pellach a diwygiadau canlyniadol iddynt. Mae'r darpariaethau newydd a fewnosodir gan y Rheoliadau hyn yn ymwneud â chyfyngiadau cyffredinol ar fannau gwaith (rheoliad 6A) a chanllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar gynnal pellter o 2 fetr rhwng personau (rheoliad 7A).

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Gwnaed y Rheoliadau hyn mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu "coronafeirws".

Diben y prif Reoliadau, sef y Rheoliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, yw:

- gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan nodi amgylchiadau lle cânt adael y man lle maent yn byw ac atal gynulliadau o grwpiau o fwy na dau o bobl, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol;
- ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau cyhoeddus penodol a thir penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o coronafeirws.

Roedd y prif Reoliadau hefyd yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cau Busnes") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Busnesau Hamdden").

### Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Cynulliad eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am fwy nag 28 diwrnod.

### Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**



Mae trydydd paragraff rhaglith y testun Saesneg yn aneglur. Mae'r testun a ganlyn yn aneglur, ac ymddengys fod rhan o'r testun ar goll: *"the Welsh Ministers consider that the person desachieve, which is a public response to that threat"*

Mae trydydd paragraff rhaglith y fersiwn Gymraeg yn glir, a gellir ei gyfieithu fel a ganlyn: *"the Welsh Ministers consider that the amendments are proportionate with that which they are seeking to achieve, which is a public response to that threat"*.

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth i egluro'r testun Saesneg.

## **2. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Gwneir y Rheoliadau hyn, fel y prif Reoliadau, wrth arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984. Yn wahanol i'r Rheoliadau Cau Busnesau a'r Rheoliadau Busnesau Hamdden, nid yw Gweinidogion Cymru wedi dibynnu ar y pŵer galluogi sydd wedi ei gynnwys yn adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984. Mae adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cyfyngiad neu ofyniad arbennig mewn rheoliadau. At y dibenion hyn, cyfyngiad neu ofyniad arbennig yw cyfyngiad neu ofyniad y gellir ei osod gan ynad heddwch yn rhinwedd adran 45G(2), 45H(2) neu 45I(2) o Ddeddf 1984. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny'n cynnwys cau mangre (adran 45I(2)(a) o Ddeddf 1984).

Mae Rheoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio, yn eu tro, reoliadau 5 a 7 o'r prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod llety gwyliau a mannau addoli yn cael eu cau yn ystod y cyfnod argyfwng. Mae Rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio darpariaethau amrywiol yn y prif Reoliadau sy'n ymwneud â chau mangreoedd. Mae'n ymddangos y dylai Gweinidogion Cymru ddibynnu ar y pwerau galluogi o dan adrannau 45C(4)(d) o Ddeddf 1984 er mwyn gwneud rheoliadau 2, 4 a 7 o'r Rheoliadau hyn, fel y gwnaethant gyda'r Rheoliadau Busnesau Hamdden a'r Rheoliadau Cau Busnes.

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth i egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol dibynnu ar adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984 er mwyn gwneud y Rheoliadau hyn.

### **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r ymyrraeth â rhai erthyglau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ymddengys nad yw'r asesiad yn gyflawn:

- Ymddengys fod erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd – yn berthnasol i reoliadau 4 a 6 o'r Rheoliadau hyn (sy'n diwygio rheoliadau 7 ac 8 o'r prif Reoliadau). Mae'r hawl hon yn hawl amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau yn yr un modd ag y caniateir iddynt wneud mewn perthynas ag erthyglau 8 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd.



- Tan ddiwedd y cyfnod pontio, bydd Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys yn y Deyrnas Unedig. Mae mesurau diogelu sy'n cyfateb i'r rhai yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'u cynnwys yn Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE. Yn ddarostyngedig i egwyddor cymesuredd, gellir gwneud cyfyngiadau sy'n effeithio ar yr hawliau o dan y Siarter os ydynt yn angenrheidiol ac yn wirioneddol bodloni amcanion o fudd cyffredinol a gydnabyddir gan yr Undeb neu'r angen i amddiffyn hawliau a rhyddid eraill.

Er nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn trafod yn benodol y mater o ymyrraeth â'r hawliau a nodir yn erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd, na'r hawliau a nodir yn Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE, mae'r cyfiawnhad a roddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag erthyglau 8 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd yr un mor berthnasol i'r ymyrraeth â'r hawliau a nodir yn erthygl 9 a Siarter yr UE.

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Ar dudalen 2 o'r Nodyn Esboniadol Saesneg, yn y paragraff sy'n dechrau gyda'r geiriau "*Regulation 3 inserts new regulation 6A...*" mae cromfach wedi'i hepgor y dylid ei mewniod. Mae'r bedwaredd linell yn dechrau gyda'r testun a ganlyn: "*(when such work is being carried out...*". Fodd bynnag, dylid gosod cromfach gaeedig ar ôl y geiriau "*Schedule 1*" (fel sydd i'w gweld yn y testun Cymraeg). Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol gan fod set arall o gromfachau yn cael eu defnyddio yn ddiweddarach yn yr un frawddeg.

## **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae darpariaethau sy'n debyg i'r rhai sydd i'w gweld yn y prif Reoliadau wedi'u cynnwys yn 'Rheoliadau Lloegr', sef *the Health Protection (Coronavirus, Restrictions) (England) Regulations 2020*. Darparwyd cyngor i'r Aelodau mewn perthynas â'r prif Reoliadau er mwyn tynnu eu sylw at y gwahaniaethau perthnasol rhwng y prif Reoliadau a Rheoliadau Lloegr. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u cynnig ar gyfer Rheoliadau Lloegr.

Mae'r diwygiadau o dan y Rheoliadau hyn yn cynrychioli ymwahanu pellach rhwng y dulliau a fabwysiedir yng Nghymru a Lloegr, a gallai hyn arwain at anghydraddoldeb i rai dinasyddion yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n byw ar y ffin â Lloegr.

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth i egluro'r rhesymau dros y gwahaniaethau rhwng y darpariaethau yn y prif Reoliadau sy'n cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn a Rheoliadau Lloegr.

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb y Llywodraeth**

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**21 Ebrill 2020**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

National Assembly for Wales

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Tudalen y pecyn 15**

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 399 (Cy. 88)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws)  
(Cymru) (Diwygio) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 5, 7 ac 8 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"), yn mewnosod rheoliadau newydd 6A a 7A yn y prif Reoliadau, ac yn gwneud mân ddiwygiadau pellach a diwygiadau canlyniadol iddynt.

Mae rheoliad 5 o'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â darparwyr llety gwyliau sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad i beidio â chynnal eu busnes o dan reoliad 4(4) o'r prif Reoliadau. Mae **rheoliad 2** yn diwygio paragraff (3) o reoliad 5 ac yn

ychwanegu is-baragraff newydd (3A) ato er mwyn ei gwneud yn glir y gall pob busnes o'r fath barhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein neu dros y ffôn neu drwy'r post, ac agor mangre ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

Mae **rheoliad 3** yn mewnosod rheoliad newydd 6A yn y prif Reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am waith sy'n cael ei gyflawni yn unrhyw fan (pan fo gwaith o'r fath yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod argyfwng ac ar yr amod nad yw'n fangre i fusnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 1) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre (oni bai bod y personau yn aelodau o'r un aelwyd neu'n ofalwr a'r person a gynorthwyr gan y gofalwr).

Mae **rheoliad 4** yn diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau fel nad yw'r gofyniad i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau mewn man addoli, amlosgfa neu ganolfan gymunedol yn gymwys i bersonau o'r un aelwyd neu i ofalwyr a phersonau y maent yn gofalu amdanynt. Mae hefyd yn mewnosod paragraff newydd (4A) i reoliad 7 gyda'r effaith bod rhaid i berson sy'n gyfrifol am fynwent gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau o aelwydydd gwahanol sy'n mynd i gladdedigaeth yn y fynwent. Yn olaf, mewnosoder paragraff (6) newydd sy'n diffinio "mynwent" a "claddedigaeth" at ddiben rheoliad 7.

Mae **rheoliad 5** yn mewnosod rheoliad newydd 7A yn y prif Reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau mewn man roi sylw i ganllawiau gan Weinidogion Cymru ynghylch cymryd y mesurau hynny.

Mae rheoliad 8(1) o'r prif Reoliadau yn darparu na chaiff unrhyw berson, yn ystod cyfnod yr argyfwng, adael y man lle y mae'n byw heb esgus rhesymol. Mae rheoliad 8(2) yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysol o'r gweithgareddau sydd i'w hystyried yn esgusodion rhesymol.

Mae is-baragraff (g) o reoliad 8(2) yn darparu bod mynd i angladd yn esgus rhesymol i berson os yw'n angladd aelod o aelwyd y person (paragraff (i)); aelod agos o'r teulu (paragraff (ii)); neu ffrind, pan na fo unrhyw aelod o aelwyd yr ymadawedig neu unrhyw aelod agos o'i deulu yn mynd (paragraff (iii)). Mae **rheoliad 6** yn diwygio rheoliad 8(2)(g) gyda'r effaith bod mynd i'r angladd i'w ystyried yn esgus rhesymol i adael y man lle y mae person yn byw os yw'r person yn gyfrifol am drefnu'r angladd neu os caiff ei wahodd (ond noder y bydd terfynau ar nifer y personau a gaiff fynd i angladd o ganlyniad i'r cyfyngiadau a osodir gan reoliad 7 o'r prif Reoliadau).

Mae **rheoliad 7** yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol gan gynnwys—

- mewnosod diffiniad o “mangre” at ddibenion y prif Reoliadau, sy’n ei gwneud yn glir fod unrhyw adeilad neu strwythur neu unrhyw dir (hynny yw, mannau awyr agored) yn cyfrif fel mangre o dan y Rheoliadau;
- caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi person i gael taliadau o gosbau penodedig yn lle gwneud taliadau i’r awdurdod lleol yr honnir bod y drosedd wedi digwydd yn ei ardal;
- ychwanegu siopau cyflenwadau dyframaethu a marchnadoedd ac arwerthiannau da byw at y rhestr yn Rhan 4 o Atodlen 1 i’r prif Reoliadau gyda’r effaith y cânt aros ar agor ond bod rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion rheoliad 6(1) o’r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 399 (Cy. 88)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws)  
(Cymru) (Diwygio) 2020**

*Gwnaed* 3 Ebrill 2020

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 6 Ebrill 2020

*Yn dod i rym* am 12.01 a.m. ar 7 Ebrill 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynycher a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(2) ac mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(2) O.S. 2020/353 (Cy. 80).

diwygiadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

### **Enwi, dod i rym a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym am 12.01 a.m. ar 7 Ebrill 2020.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y prif Reoliadau” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(1).

### **Busnesau llety gwyliau sy'n darparu gwasanaethau ar-lein etc.**

2. Yn rheoliad 5 o'r prif Reoliadau, yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) I'r graddau y mae rheoliad 4(4) yn gymwys i unrhyw fusnes arall a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, mae'r rhwymedigaeth ar y person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes yn gymwys yn ddarostyngedig i'r angen i ddarparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac—

- (a) na allant ddychwelyd i'w prif breswylfa, neu
- (b) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa.

(3A) I'r graddau y mae rheoliad 4(4) yn gymwys i fusnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, mae'r rhwymedigaeth ar y person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes yn gymwys yn ddarostyngedig i'r angen—

- (a) i gynnal y busnes, neu i gadw unrhyw fangre a ddefnyddir yn y busnes ar agor, at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano;
- (b) i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—
  - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar-lein,

---

(1) O.S. 2020/353 (Cy. 80).



- (ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu
- (iii) drwy'r post.”

### Cyfyngiad ar fannau gwaith eraill

3. Ar ôl rheoliad 6 o'r prif Reoliadau mewnosoder—

#### “Cyfyngiad cyffredinol ar fannau gwaith

**6A.**—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am waith a gyflawnir mewn mangre lle mae person yn gweithio, pan yw gwaith o'r fath yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i fangre a ddefnyddir i gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Atodlen 1.”

### Cyfyngiadau ar fannau addoli, amlogfeydd, mynwentydd a chanolfannau cymunedol

4. Yn rheoliad 7 o'r prif Reoliadau—

- (a) ym mharagraff (2), ar ôl “addoli”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder “(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr)”;
- (b) ym mharagraff (4), ar ôl “amlogfa”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder “(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr)”;
- (c) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am fynwent gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pob person mewn claddedigaeth sy'n digwydd yn y fynwent yn ystod cyfnod yr argyfwng (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr).”;
- (d) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “fangre” mewnosoder “(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr)”;
- (e) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6) At ddiben y rheoliad hwn—

  - (a) mae “claddu” yn cynnwys rhoi lludw person marw yn y ddaear;

- (b) mae “mynwent” yn cynnwys claddfa ac unrhyw fan arall sydd sy’n cael ei ddefnyddio i gladdu’r meirw.”
- (f) yn y pennawd, ar ôl “amlogfeydd” mewnosoder “, mynwentydd”.

### **Canllawiau ar gynnal pellter o 2 fetr rhwng personau**

5. Ar ôl rheoliad 7 o’r prif Reoliadau mewnosoder—

#### **“Canllawiau ar gynnal pellter o 2 fetr rhwng personau**

7A.—(1) Rhaid i berson sy’n ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad yn—

- (a) rheoliad 4(1) fel y mae’n gymwys i ffreuturau yn y gweithle,
- (b) rheoliad 6(1),
- (c) rheoliad 6A(1), neu
- (d) rheoliad 7(1), (3), (4A) neu (5),

roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y camau rhesymol sydd i’w cymryd i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a
- (b) rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy’n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).”

### **Mynd i angladdau**

6. Yn rheoliad 8(2)(g) o’r prif Reoliadau, yn lle paragraffau (i) i (iv) rhodder—

- “(i) fel person sy’n gyfrifol am drefnu’r angladd,
- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy’n gyfrifol am drefnu’r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy’n mynd i’r angladd.”

### **Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

7.—(1) Mae’r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3), ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

“(da) mae “mangre” yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;”.

(3) Yn rheoliad 3(2), yn lle “15” rhodder “16”.

(4) Yn rheoliad 10—

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl “6” mewnosoder “, 6A”;

(b) ym mharagraff (12), ar ôl “6,” mewnosoder “6A,”.

(5) Yn rheoliad 12(1)(a), ar ôl “6,” mewnosoder “6A,”.

(6) Yn rheoliad 13—

(a) ym mharagraff (2), yn lle “awdurdod lleol a bennir yn yr hysbysiad.” rhodder “—

(a) awdurdod lleol, neu

(b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn,

fel y caiff yr hysbysiad ei bennu.”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Caiff Gweinidogion Cymru eu dynodi hwy eu hunain o dan baragraff (2)(b).”;

(c) ym mharagraff (3), yn lle “Rhaid i'r awdurdod lleol a bennir yn yr hysbysiad” rhodder “Pan fo awdurdod lleol wedi ei bennu yn yr hysbysiad rhaid iddo”;

(d) ym mharagraff (8), ar ôl “£120” mewnosoder “ac nid yw paragraff (7) yn gymwys”;

(e) ym mharagraff (11)(a), yn lle “yr awdurdod lleol, a” rhodder “—

(i) yr awdurdod lleol, neu

(ii) y person a ddynodir o dan baragraff (2)(b),

a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a”.

(7) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 29, yn lle “yn”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder “oddi ar”;

(b) yn lle paragraff 44, rhodder—

“**44.** Siopau cyflenwadau amaethyddol neu ddyframaethu.

**44A.** Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.”

(c) ym mhennawd yr Atodlen ar ôl “gyfyngiadau” mewnosoder “penodol”.

*Mark Drakeford*  
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
3 Ebrill 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020.

Vaughan Gething

**Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

7 Ebrill 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y brif Rheoliadau") sydd yn

- gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan nodi amgylchiadau lle cânt adael y man lle maent yn byw ac atal gynulladau o grwpiau o fwy na dau o bobl, a;
- yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau cyhoeddus penodol a thir penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan y weithdrefn frys a ddarperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir cymryd mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad i iechyd pobl gan coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Erthygl 8 – yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol; Erthygl 11-yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu; ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf – diogelu eiddo.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd.

Yr hyn sy'n angenrheidiol yn sgil y sefyllfa a arweiniodd at wneud y Rheoliadau hyn yw'r sail y dibynnir arni i gyfiawnhau'r ymyrraeth â'r hawliau hyn fel ffordd gymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon o ddiogelu dinasyddion Cymru.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau wedi eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal

Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i achosion o heintio neu ledaenu heintiau neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu safleoedd os bydd, neu mewn ymateb i, fygythiad i iechyd y cyhoedd. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Rheoliadau i'w gwneud yn glir y gall pob busnes o dan gyfyngiadau barhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein neu dros y ffôn neu yn y post, a gall agor mangre ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am waith gael ei wneud i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng personau yn y fangre (oni bai bod y personau yn aelodau o'r un aelwyd neu'n ofalwr a'r person sy'n derbyn gofal). Mae hyn yn gymwys i bob man gwaith oni bai ei fod eisoes yn ddarostyngedig i gyfyngiadau o dan y prif Rheoliadau neu y mae'n ofynnol iddo gau o dan y Rheoliadau hynny.

<sup>4</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/788764/CCS207\\_EUWithdrawalActAndCommonFrameworks.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/788764/CCS207_EUWithdrawalActAndCommonFrameworks.pdf)

<sup>5</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/804360/Third\\_EU\\_Withdrawal\\_Act\\_and\\_Common\\_Frameworks\\_report\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/804360/Third_EU_Withdrawal_Act_and_Common_Frameworks_report_.pdf)

<sup>6</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/817382/final-edits-Fourth-s.12-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/817382/final-edits-Fourth-s.12-report.pdf)

<sup>7</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/841824/The\\_European\\_Union\\_Withdrawal\\_Web\\_Accessible.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/841824/The_European_Union_Withdrawal_Web_Accessible.pdf)

<sup>8</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/792738/20190404-FrameworksAnalysis.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/792738/20190404-FrameworksAnalysis.pdf)

<sup>9</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/814326/Frameworks\\_Products\\_Update\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/814326/Frameworks_Products_Update_.pdf)

<sup>10</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/686991/20180307\\_FINAL\\_Frameworks\\_analysis\\_for\\_publication\\_on\\_9\\_March\\_2018.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/686991/20180307_FINAL_Frameworks_analysis_for_publication_on_9_March_2018.pdf)

## Legislation Relating to Retained EU Law Restrictions

- 2.1 Section 12 of the EU (Withdrawal) Act removes the current requirements in each of the devolution statutes that the devolved legislatures can only legislate in ways that are compatible with EU law. The Act then replaces those requirements with powers for the UK Government to apply, by regulations, a temporary ‘freeze’ on devolved competence in specified areas, subject to the approval of the UK Parliament, via the draft affirmative scrutiny procedure.
- 2.2 The process for making, agreeing and revoking these regulations can be found in the first *European Union (Withdrawal) Act and Common Frameworks Report*<sup>11</sup>.

### Regulations to ‘Freeze’ Devolved Competence

#### Retained EU law restrictions applied during reporting period

- 2.3 No regulations have been made to apply retained EU law restrictions under these powers during the reporting period.

#### Progress towards removal of retained EU law restrictions

- 2.4 No retained EU law restrictions made under the powers in sections 30A and 57(4) of the Scotland Act 1998, sections 80(8) and 109A of the Government of Wales Act 2006, or sections 6A and 24(3) of the Northern Ireland Act 1998 had effect at the end the reporting period.

### Regulations to Repeal the ‘Freezing’ Powers

- 2.5 In addition to the ‘freezing’ powers inserted into the devolution statutes by the EU (Withdrawal) Act, section 12(9) confers a power on UK Ministers to repeal, by regulations, the new provisions containing those powers.

#### Powers to apply retained EU law restrictions repealed during reporting period

---

<sup>11</sup><https://www.gov.uk/government/publications/the-european-union-withdrawal-act-and-common-frameworks-report>

- 2.6 No regulations have been made under section 12(9) of the EU (Withdrawal) Act to repeal the powers to apply retained EU law restrictions during the reporting period.

### **Progress required in order to repeal the powers to apply retained EU law restrictions**

- 2.7 The UK Government has not sought to make use of the powers to apply retained EU law restrictions at this juncture. As outlined earlier in this report, significant progress is being made across policy areas to establish common frameworks in collaboration with the devolved administrations.
- 2.8 The freezing' powers provide a mechanism to give certainty across those areas where common rules do need to be maintained, by ensuring that there will not be substantive policy change in different parts of the UK until those future arrangements are in place. In order to remove those powers from the statute book, further progress towards the implementation of common frameworks would be needed. The UK Government will keep this position under review, in line with the statutory duty in section 12(10) of the EU (Withdrawal) Act.





CCS0120904666  
ISBN 978-1-5286-1770-3

Tudalen y pecyn 62

Julie James AC/AM  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniwi, AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

23 Mawrth 2020

Annwyl Mick

### Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am y gwaith craffu y maent wedi'i wneud ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2020.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Nid yw wedi bod yn bosibl imi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi'r egwyddorion a'r rhesymeg sy'n sail iddynt ar waith cyn belled ag y bo modd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1 a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

Julie James AC/AM  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A: Ymateb i Gasgliadau ac Argymhellion Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn negyddol wrth wneud rheoliadau o dan baragraffau 9 a 10 o Atodlen 1.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae Atodiad 1 yn nodi'n fanwl y broses ar gyfer cynnal adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ('y Comisiwn'). Mae'r broses a nodir yn y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal ymgynghoriad lleol cynhwysfawr ac mae'n gwbl agored a thryloyw. Mae hyn yn gyson â phob adolygiad o drefniadau etholiadol prif gynghorau a gynhelir gan y Comisiwn. Gan mai rheoliadau lleol yw'r rhain, nid ydynt yn ddarostyngedig i weithdrefn yn y Senedd. Mae'n debygol iawn y bydd yr adolygiadau cychwynnol yn cael eu cynnal o fewn terfynau amser tynn iawn er mwyn bodloni dyddiadau arfaethedig yr etholiadau.

Petai Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan baragraff 9(1)(b) neu 10(2) o Atodlen 1, mae paragraff 12 o'r Atodlen yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad newydd o'r trefniadau etholiadol, yn unol â'r broses safonol a nodir yn adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau cyffredin cyntaf ac, yn unrhyw achos, cyn yr etholiadau cyffredin nesaf.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 18 o'r Bil, fel bod rheoliadau i ddarparu ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol yn ddarostyngedig i weithdrefn uwch-gadarnhaol yn y lle cyntaf, a'r weithdrefn gadarnhaol yn dilyn hynny.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylid ond defnyddio gweithdrefn 'uwchgadarnhaol' mewn 'achosion eithriadol'. Nid wyf yn ystyried bod yr achos hwn yn 'eithriadol'.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i wneud gorchymyn o dan adran 10(1B) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 26(1) o'r Bil).**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Dim ond o dan amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru yn teimlo y byddai cynnal peilot etholiadol o fudd penodol i etholwyr ond nad yw unrhyw brif gyngor yn fodlon gwneud hynny y bydd unrhyw Orchymyn a wneir o dan y pŵer hwn yn cael ei gymhwyso. Byddai cyfyngiad amser ar y Gorchymyn. Byddai hefyd yn lleol o ran ei natur ac yn berthnasol i nifer bach o brif gynghorau ar y mwyaf. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan werthusiad statudol a gynhelir gan y Comisiwn Etholiadol, gydag unrhyw newidiadau tymor hir sy'n deillio o beilot o'r fath yn ddarostyngedig i graffu llawn gan y Senedd.

Rwy'n ystyried y byddai gwneud Gorchymyn o'r natur hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn anghymesur.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog, yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil, esbonio'n glir pam na ellir disodli pwerau gwneud rheoliadau sydd wedi eu cynnwys ym mharagraffau 6, 10(3) a 10(4) o Atodlen 4 i'r Bil a darpariaethau cyfatebol ar wyneb y Bil.**

**Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan randdeiliaid, rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried opsiynau i gynnig gwelliant er mwyn cymhwyso'r darpariaethau newydd mewn perthynas â chyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd yn electronig i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, fel y'i mewnosodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 gan Atodlen 4.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 52A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 67(2) o'r Bil).**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac rwy'n cynnig cyflwyno gwelliant i ddod â'r argymhelliad hwn i rym.

**Argymhelliad 6. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil, dylai'r Gweinidog esbonio:**

- **sut mae hi'n bwriadu defnyddio rheoliadau dan adran 82(1)(d)**
- **goblygiadau dileu adran 82(1)(d) o'r Bil.**

**Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.** Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant at ddiben egluro'r broses o ddiwygio a dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor corfforedig. Ni fydd y darpariaethau diwygiedig yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau 'at unrhyw ddiben arall'.

**Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 84(1).**

**Nid oes angen cymryd unrhyw gamau.** Mae adran 84(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol gan ei bod yn ddibynnol ar reoliadau cyd-bwyllgor corfforedig sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae Adran 84(1) yn nodi cwmpas y rheoliadau cyd-bwyllgor a'r rheoliadau diwygio neu'r rheoliadau atodol. Gan fod pob un o'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, mae gwneud rheoliadau o dan adran 84(1) hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn honno.

Mae'n ymddangos bod y cofnod yn y tabl o bwerau gwneud rheoliadau yn y Memorandwm Esboniadol yn anghywir a byddwn yn mynd i'r afael â hyn pan fydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei adolygu ar ddiwedd Cyfnod 2.

**Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod yn rhaid i ganllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 88(3) gwmpasu'r angen i gynnwys aelodau ar y panel asesu perfformiad, a grëwyd o dan adran 91, sydd yn annibynnol ar yr awdurdod lleol.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Nid wyf o'r farn ei fod yn gymesur nodi'n union yr hyn y dylai'r canllawiau ei gwmpasu mewn perthynas ag aelodau'r panel ar wyneb y Bil gan gadw'n dawel ynghylch unrhyw bwyntiau eraill y gallai'r canllawiau eu cynnwys.

Rwy'n bwriadu cyflwyno canllaw statudol a fydd yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod aelodau'r panel yn annibynnol. Dylai'r panel gynnwys cymysgedd o'r isod o leiaf:

- Cadeirydd annibynnol nad yw ar y pryd yn gwasanaethu mewn rhinwedd swyddogol neu wleidyddol mewn llywodraeth leol;
- Cymheiriad o blith y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat yn ehangach;
- Uwch-swyddog mewn llywodraeth leol, ar lefel sy'n debygol o gyfateb i gyfarwyddwr neu brif weithredwr;
- Aelod etholedig.

Bydd y canllawiau'n egluro nad oes bwriad i gyfyngu nifer yr aelodau ar y panel i bedwar.

Rydym yn gweithio gyda swyddogion llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill i lunio'r canllawiau hyn. Os ystyrir ymhen amser fod angen defnyddio dull mwy rhagnodol, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â phenodi'r paneli o dan adran 93 o'r Bil.

**Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 93(2)(b).**

**Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn** ac rwy'n cynnig cyflwyno gwelliant i wneud pob rheoliad a wneir o dan adran 93 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog, yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil, nodi'n glir ac yn fanwl sut mae hi'n bwriadu defnyddio'r pwerau sydd yn adran 109(2) o'r Bil.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Bydd adran 109(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi pwerau newydd i un prif gyngor penodol neu ragor, os ydynt o'r farn bod y pwerau hynny'n angenrheidiol neu'n fuddiol i ganiatáu i brif gyngor gydymffurfio â'r drefn perfformiad a llywodraethiant newydd neu'n hwyluso hynny.

Bydd natur yr heriau y gall prif gyngor eu hwynebu wrth reoli ei drefn perfformiad a llywodraethiant neu wrth gydymffurfio â'i ofynion perfformiad fod yn wahanol ym mhob achos. Gallai'r ymyraethau a'r gefnogaeth y gallai fod eu hangen i fynd i'r afael â'r heriau hynny, fod yn wahanol hefyd. Am y rheswm hwn, nid wyf yn ystyried ei fod yn briodol, nac o unrhyw werth ystyrion, geisio nodi'n fanwl o dan ba amgylchiadau y gallai fod yn angenrheidiol defnyddio'r pŵer hwn.

**Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" o adran 109(2).**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Bydd adran 109(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi pwerau newydd i un prif gyngor penodol neu ragor, os ydynt o'r farn bod y pwerau hynny'n angenrheidiol neu'n hwylus.

Efallai na fydd rhai pwerau newydd sy'n cael eu rhoi i brif gynghorau yn gwbl "angenrheidiol" i'w galluogi i gydymffurfio â Phennod 1 o Adran 6. Serch hynny, gallent fod yn fanteisiol o ran hwyluso cydymffurfiaeth. Dyna pam mae angen cynnwys y term "neu'n hwylus" yn yr adran hon.

Bydd natur y cymorth a gaiff ei ddarparu, a'r amgylchiadau y cynhelir arolygiad neu ymyrraeth oddi tanynt yn wahanol ym mhob achos. Er mwyn ymateb i'r materion penodol ac unigol y bydd prif gyngor yn eu hwynebu, rhaid i'r pŵer fod yn ddigon eang i ddarparu ar gyfer pob amgylchiad unigol a allai godi.

Byddai pŵer i wneud rheoliadau er mwyn rhoi pwerau newydd i brif gynghorau ond dim ond os ystyrir hynny'n "angenrheidiol" yn rhy gyfyng.

**Argymhelliad 12. Rydym o'r farn y dylai'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, ar gyfer pob adran sy'n cynnwys pŵer i gyhoeddi canllawiau, roi syniad bras o'r hyn y mae'r canllawiau hynny'n debygol o'i gwmpasu. Dylai'r Nodiadau Esboniadol gael eu diwygio yn unol â hynny.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor ac rwy'n cytuno, mewn egwyddor, y dylid gwneud rhagor o waith.** Mae'r Memorandwm Esboniadol presennol yn rhoi syniad bras o'r materion y gallai'r canllawiau eu cwmpasu mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil.

Rwy'n ystyried ei fod yn briodol cynnwys y math hwn o wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn hytrach nag yn y Nodiadau Esboniadol. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am adrannau perthnasol eraill pan fydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei adolygu ar ddiwedd Cyfnod 2.

**Julie James AC/AM**  
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**  
**Minister for Housing and Local Government**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

John Griffiths, AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

23 Mawrth 2020

Annwyl John

### **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am y gwaith craffu y maent wedi'i wneud ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2020.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Nid yw wedi bod yn bosibl imi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi'r egwyddorion a'r rhesymeg sy'n sail iddynt ar waith cyn belled ag y bo modd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1 a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

**Julie James AC/AM**  
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**  
**Minister for Housing and Local Government**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 68**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Atodiad A: Ymateb i Gasgliadau ac Argymhellion Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).**

**Nodaf a chroesawaf yr argymhelliad** a chefnogaeth y Pwyllgor dros egwyddorion cyffredinol y Bil. Hoffwn ddiolch i bob aelod o'r Pwyllgor am graffu'n ystyriol ac yn drylwyr ar y Bil.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth benodol i gyflwyno lefel ddigonol o addysg ar wleidyddiaeth a democratiaeth yng Nghymru ar draws yr holl ysgolion. Yn benodol, dylai pobl ifanc 14 a 15 oed gael yr addysg hon i'w paratoi i bleidleisio pan fyddant yn 16 oed. Dylid cynnwys cynlluniau gwersi clir ar gyfer y rhaglen ymwybyddiaeth wleidyddol hon i rymuso athrawon i gyflwyno'r gwersi.**

**Cydnabyddaf y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, serch hynny, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn** gan nad wyf yn ystyried bod angen gwneud darpariaeth benodol ar wyneb y Bil gan fod gwaith eisoes yn mynd rhagddo.

Rydym yn datblygu adnoddau addysgol, gan fabwysiadu dull ac iddo ddau gam. Bydd hyn yn ein galluogi i roi gwybodaeth i bleidleiswyr tro cyntaf yn y tymor byr a meithrin dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n ddinasyddion Cymru a'r byd, yn y tymor hwy. Rydym yn defnyddio'r mecanweithiau cyflenwi sydd ar gael inni drwy'r cwricwlwm ysgol presennol a'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu.

Bydd adnoddau cam un yn cael eu cynllunio i'w rhoi ar waith yn y cwricwlwm presennol er defnydd dysgwyr ac ymarferwyr (ond byddant yn parhau i fod yn berthnasol ac ar gael yn y tymor hwy). Bydd adnoddau cam dau yn rhan o'r cwricwlwm newydd. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu i ddatblygu cenhedlaeth o bobl ifanc sydd â diddordeb ac sy'n wybodus ynghylch gwleidyddiaeth.

Bydd adnoddau cam un yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2020 fel y gall ysgolion (a cholegau, grwpiau ieuencid ac eraill) gynllunio'r defnydd o'r adnoddau hyn ym mlwyddyn academaidd 2020-21. Byddant yn adnoddau annibynnol, i'w defnyddio gan ysgolion yn eu gwasanaethau, ar ddiwrnodau allgyrsiol, yn rhan o'u Haddysg Bersonol a Chymdeithasol yn ogystal â'r tu hwnt i'r ysgol mewn lleoedd fel grwpiau ieuencid.

Mae cyfleoedd hefyd i ddysgwyr ymwneud â gwleidyddiaeth yn y cwricwlwm presennol, drwy Fagloriaeth Cymru. Mae swyddogion wrthi'n llunio pecyn adnoddau addysgu a dysgu ar gyfer myfyrwyr Bagloriaeth Cymru Cyfnod Allweddol 4 fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Rydym hefyd wrthi'n datblygu adnoddau dysgu proffesiynol i gynorthwyo athrawon i gyflwyno addysg wleidyddol a delio gyda sefyllfaoedd a all godi yn sgil ehangu pwy sy'n cael pleidleisio a chwestiynau ynglŷn â materion gwleidyddol.

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell estyn y ddyletswydd yn adran 4 i gynnwys dyletswydd benodol ar swyddogion cofrestru etholiadol i hyrwyddo ymwybyddiaeth a helpu pobl ifanc berthnasol.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd tuag at nifer o blant fel rhiant corfforaethol, felly mae gosod dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu cymorth i bobl ifanc mewn perthynas â threfniadau etholiadol yn estyniad o'r rôl hon.

Mae pobl ifanc rhwng 14 a 17 oed y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt yn pleidleisio am y tro cyntaf ac rwy'n credu y dylai fod dyletswydd benodol ar awdurdodau i dargedu'r garfan hon o bleidleiswyr newydd. Rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno gwelliannau cyfnod 2 i ymestyn y diffiniad yn adran 4 o'r Bil i gynnwys pobl sy'n gadael gofal o fewn y grŵp oedran hwnnw.

Mae sicrhau y caiff cyfranogiad democrataidd ei hyrwyddo yn rhywbeth y dylai'r awdurdod lleol cyfan ysgwyddo cyfrifoldeb drosto; mae gan swyddogion cofrestru etholiadol ddyletswydd benodol eisoes i sicrhau cywirdeb a chyflawnder y gofrestr etholiadol, felly nid wyf o'r farn bod angen dyletswydd arall.

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhaglen ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, prif gynghorau a chymunedau ar draws Cymru ynghylch diwygio trefniadau pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried yr effaith y gallai STV ei chael ar gynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr a thrafod dulliau i ddinasyddion fynegi eu barn i brif gynghorau am y system bleidleisio a ddefnyddir.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Credaf y gallai hyn danseilio'r egwyddor a nodir yn y Bil, sef cyflwyno dewis gan olygu bod y system bleidleisio yn fater i'w benderfynu'n lleol.

Os yw cyngor yn mynegi diddordeb mewn newid i Bleidlais Sengl Drosoglwyddadwy (STV), byddwn yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod yr holl oblygiadau yn cael eu hystyried yn drylwyr a bod pobl leol yn cael eu cynnwys yn llawn. Mae dinasyddion yn gallu mynegi barn ynghylch y system bleidleisio sydd i'w defnyddio, gan fod yn rhaid i gyngor sy'n ystyried newid y system bleidleisio ymgynghori â'r canlynol:

- Etholwyr llywodraeth leol yn ardal y cyngor
- Cynghorau cymuned yr ardal
- Unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried sy'n briodol

**Argymhelliad 5. Rydym yn argymell diwygio'r ddarpariaeth yn adran 13 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn iddo wneud rheolau ynglŷn â chynnal etholiadau lleol yng Nghymru.**

**Rwyf yn cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor ac yn cytuno, mewn egwyddor, y dylid gwneud diwygiad i'r adran hon.** Mae adran 13 o'r Bil yn mewnosod adran 36A newydd yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Fel y'i

drafftiiwyd ar hyn o bryd, nid yw adran 36A yn ei gwneud ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad statudol. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn eu hystyried yn briodol. Byddai hyn yn gyson â phwerau etholiadol tebyg eraill yn y Bil. O gofio natur rôl y Comisiwn Etholiadol, byddai'n amlwg y byddai'r gofyniad hwn yn eu cynnwys. Rwyf hefyd o'r farn y bydd y gwelliant hwn yn darparu ar gyfer ymgynghoriad ehangach, gan gwmpasu, yn ogystal â'r Comisiwn Etholiadol, y gymuned etholiadol ehangach, swyddogion cofrestru etholiadol, prif gynghorau, cynghorau cymuned ac ati.

**Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod y gofynion ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud Gorchymyn i newid diwrnod arferol etholiadau lleol yn cael eu hestyn i gynnwys y Comisiwn Etholiadol fel ymgynghorai statudol.**

**Rwyf yn cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Cyn gwneud gorchymyn i newid diwrnod arferol etholiadau lleol, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn eu hystyried yn briodol. Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, caiff y Comisiwn Etholiadol ei gydnabod fel corff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwylio etholiadau, a chytunaf ei bod yn briodol ymgynghori ag ef cyn gwneud y rheoliadau hyn. Gan y bydd y gofyniad ymgynghori presennol yn darparu ar gyfer hyn, nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol darparu ar gyfer rhagnodi ychwanegol ar wyneb y Bil. Pe bai Gweinidogion Cymru yn methu ag ymgynghori â'r Comisiwn, gallent fod mewn perygl o gael eu herio am fethu ag ymgynghori â 'phersonau priodol'.

**Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod y darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru heb gais yn cael eu diwygio i sicrhau y caiff unigolion sydd wedi'u cofrestru yn y modd hwn eu rhoi ar y gofrestr etholiadol gaeëdig, yn hytrach na'r gofrestr agored.**

**Rwyf yn cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r darpariaethau ynglŷn â chofrestru heb wneud cais yn ddarostyngedig i gychwyn drwy Orchymyn.

Fel y mae'r darpariaethau wedi'u drafftio ar hyn o bryd, byddai etholwr yn cael ei roi ar y gofrestr lawn 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei ychwanegu drwy gofrestru heb gais. Y gofrestr lawn yw'r un a ddefnyddir mewn etholiadau ac nid honno yw'r un sydd ar gael i'w phrynu e.e. gan asiantau credyd. O dan y darpariaethau, gall yr etholwr wneud cais i beidio â chael ei tynnwys ar y gofrestr a olygwyd. Y gofrestr a olygwyd yw'r un y gellir ei gwerthu ac ati. Felly, bydd gan etholwyr ddewis bod ar y gofrestr lawn neu'r gofrestr lawn a golygedig Fodd bynnag, o ystyried yr ystod o ddiwygiadau etholiadol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yng Nghymru, rydym wedi penderfynu peidio â chychwyn y darpariaethau hyn ar gydsyniad Brenhinol, yn hytrach byddwn yn eu cychwyn drwy orchymyn. Bydd hyn yn caniatáu i'r gyfres bresennol o ddiwygiadau gael eu hymgorffori cyn gofyn i weinyddwyr ystyried newidiadau ychwanegol.

Cyn cychwyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ystyried pob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r

cofrestrriad heb wneud cais. Os bydd angen darpariaeth bellach, rhoddir ystyriaeth i wneud rheoliadau o dan adran 9ZA(4) newydd o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i mewnosodir gan adran 22 o'r Bil.

**Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell, yn sgil y newid polisi sylweddol i ganiatáu i weithwyr prif gynghorau, ac eithrio'r rhai mewn swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol, sefyll etholiad i'r cyngor sy'n eu cyflogi, y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag CLILC ac undebau llafur i ddatblygu canllawiau i staff a rheolwyr ynghylch ymdrin â'r goblygiadau, yn enwedig pan fo staff aflwyddiannus yn parhau â'u cyflogaeth.**

**Rwy'n derbyn yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn.** Bwriad y darpariaethau yw caniatáu i'r rhai sydd â'r wybodaeth orau am eu cymunedau sefyll mewn etholiadau heb orfod ymddiswyddo cyn cael eu hethol. Mae'r darpariaethau hyn yn golygu ein bod yn gyson â'r Alban a byddant yn helpu i sicrhau mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr mewn llywodraeth leol.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu canllawiau anstatudol sy'n ymwneud â goblygiadau'r darpariaethau hyn.

**Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o effaith y darpariaethau sy'n ymwneud â gwariant gan Swyddogion Canlyniadau yn dilyn y cylch etholiadol cyntaf pan gânt eu talu drwy eu cyflogau.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Y cyfan y mae darpariaethau'r Bil yn ei wneud yw egluro'r gyfraith, hynny yw, ni chaniateir i swyddogion canlyniadau hawlio ffi bersonol am redeg etholiadau lleol.

Yr arfer ar hyn o bryd yw bod Swyddogion Canlyniadau yn hawlio swm am eu gwasanaethau wrth gynnal etholiadau cyngor; nid oes darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer hyn. O ystyried hyn, nid wyf o'r farn bod talu ffi yn ffordd o warantu annibyniaeth Swyddog Canlyniadau. Gwarantir annibyniaeth y rôl drwy ei deddfwriaeth a'r safonau perfformiad a osodir gan y Comisiwn Etholiadol.

Felly, nid wyf yn credu bod angen cynnal gwerthusiad annibynnol o'r polisi hwn gan fod yna ddigon o graffu ar Swyddogion Canlyniadau a'r rôl y maent yn ei chyflawni.

**Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn achub ar y cyfle hwn i sicrhau cysondeb wrth ddarparu etholiadau ar draws Cymru yn ddwyieithog, yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

**Rwyf yn cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Fel cyflogeion awdurdodau lleol, mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gydymffurfio â'r safonau a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er bod rôl Swyddogion Canlyniadau yn annibynnol ar yr awdurdod lleol, mae'r Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn datgan yn glir y dylai

Swyddogion Canlyniadau roi sylw i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a darparu gwasanaethau dwyieithog.

Yn ogystal, mae'n rhaid i bob ffurflen etholiadol a dogfennaeth swyddogol gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn ôl y gyfraith eisoes.

**Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r defnydd o'r pŵer cymhwysedd cyffredinol gan brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys erbyn diwedd y cylch etholiadol llywodraeth leol nesaf, i weld ei effeithiolrwydd.**

**Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Pan gaiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiwygio ar ddiwedd Cyfnod 2, byddwn yn cyfeirio at adolygiad o'r defnydd o'r pŵer cyffredinol fel rhan o'r strategaeth adolygu ar ôl gweithredu. Bydd natur, amseriad ac ystyriaeth adolygiad o'r fath yn fater i Gynulliad yn y dyfodol.

**Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r ddyletswydd yn adran 46(2) i gynnwys gofyniad ar brif gynghorau i gydweithredu ag awdurdodau cysylltiedig i annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau. O ganlyniad, dylid diwygio adran 47 hefyd fel bod strategaethau cyfranogiad y cyhoedd yn adlewyrchu'r dull cydweithredol hwn.**

**Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell diwygio adran 46(3) fel bod awdurdodau tân ac achub yn cael eu henwi'n awdurdodau cysylltiedig â phrif gyngor.**

**Rwyf yn cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhellion y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhellion hyn.** Ar ôl ystyried tystiolaeth y rhanddeiliaid a ddarparwyd i'r Pwyllgor, rwyf wedi ailystyried y darpariaethau hyn ac yn cytuno na ddylai'r ddyletswydd ar brif gyngor i annog cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau ymestyn i 'gyrff cysylltiedig', gan fod y rhain yn annibynnol ac y dylent barhau i fod yn gyfrifol am eu materion eu hunain.

Rwyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r cyfeiriadau at awdurdodau cysylltiedig. Rwyf wedi ystyried yn ofalus a ddylwn roi'r ddyletswydd hon ar awdurdodau eraill, gan gynnwys awdurdodau tân ac achub, yn unigol. Fodd bynnag, rwy'n credu y byddai hyn yn anghymesur.

**Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) fel nad yw'n ofynnol i gynghorwyr gyhoeddi eu cyfeiriad cartref yn llawn yn y gofrestr buddiannau.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ceisio cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol i ddiwygio'r Gorchymyn hwn ar adeg briodol.

**Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r sefyllfa o ran cyhoeddi cyfeiriadau cartref cynghorwyr cymuned ac yn diwygio'r Bil i estyn y ddarpariaeth i'w cynnwys yn adran 50 os oes angen.**

**Rwy'n derbyn yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn**, ond nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol cyflwyno gwelliant.

Rhaid i gynghorau cymuned, o dan adran 55(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sicrhau bod gwybodaeth electronig ar gael am bob un o'i haelodau gan gynnwys sut y gellir cysylltu â'r aelodau hynny. Nid yw'n ofynnol iddo fod yn gyfeiriad personol.

i gyngor cymuned sicrhau bod gwybodaeth electronig ar gael am sut i gysylltu ag ef ac, os yw'n wahanol, ei glerc gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost. Unwaith eto, nid yw'n ofynnol i'r cyfeiriad post fod yn gyfeiriad cartref.

Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch adran 55(1) o Ddeddf 2013 y bydd raid i gynghorau cymuned roi sylw iddynt. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i'r sector mewn perthynas ag ystod o ddarpariaethau yn y Bil a byddwn yn ystyried egluro mewn canllawiau nad yw'n ofynnol nac yn ddymunol cyhoeddi cyfeiriadau cartref yr aelodau.

**Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau wedi'u diweddarau ar ddefnyddio cyfarpar recordio preifat mewn cyfarfodydd cyngor yn sgil y darpariaethau yn y Bil hwn sy'n ymwneud â darlledu cyfarfodydd cyngor yn electronig.**

**Rwy'n cytuno â'r egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad hwn.** Mae swyddogion wrthi'n cydweithio â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a CLILC i gydgyhyrchu canllawiau a fydd yn sail i sawl darpariaeth yn y Bil. I helpu i lunio'r canllawiau hyn, mae swyddogion wrthi'n cynnal cyfres o ymweliadau ag awdurdodau lleol i drafod y cyfleoedd a'r materion sydd ynghlwm wrth ddarlledu a mynychu o bell.

**Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn estyn y darpariaethau yn adran 56 i gynnwys awdurdodau tân ac achub.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn edrych ar opsiynau i gyflwyno gwelliant i estyn y darpariaethau yn adran 56 i gynnwys awdurdodau tân ac achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

**Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro mewn canllawiau y caiff cynghorau tref a chymuned lunio adroddiadau cyfansawdd sy'n cwmpasu eu holl rwymedigaethau adrodd.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Rwy'n bwriadu rhoi canllawiau i'r sector cynghorau tref a chymuned ynghylch sawl darpariaeth berthnasol yn y Bil. Yn y canllawiau hyn, byddaf yn cadarnhau y caiff y cynghorau hyn lunio adroddiadau cyfansawdd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Argymhelliad 19. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag ALACE a SOLACE ar newidiadau sy'n ymwneud â rheoli perfformiad prif weithredwyr cyn cyflwyno gwelliannau i adran 60 yn ystod y cyfnodau diwygio.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ceisio cyflwyno'r gwelliant angenrheidiol.

**Argymhelliad 20. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil a fyddai'n galluogi rhannu swyddi ar gyfer ystod ehangach o rolau penodol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, i hwyluso neu alluogi rhannu swyddi mewn perthynas ag ystod o rolau penodedig.

**Argymhelliad 21. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i drafod dichonoldeb galluogi dau unigolyn i sefyll etholiad ar y cyd ar sail rhannu swydd.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor ac yn cytuno i wneud rhagor o waith.** Yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor, *Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol*, ymrwymais i ystyried y mater hwn fel rhan o gam nesaf ein rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 22. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r darpariaethau sy'n ymwneud â chynorthwywyr i weithrediaethau a rhannu swyddi fel ffordd o wella amrywiaeth ymhlith gweithrediaethau cyngor.**

**Rwy'n derbyn yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn.** Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a chynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol a dyna pam rwyf wedi cynnwys darpariaethau mewn perthynas â rhannu swyddi a chynorthwywyr i weithrediaethau yn y Bil.

Yn ogystal, mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ystyried canllawiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth o ran trefniadau gweithrediaeth.

Er ein bod yn parhau i gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu amrywiaeth, nid mater i Lywodraeth Cymru yn unig yw hyn, ond i bob partner ddefnyddio'r cyfleoedd presennol a chyfleoedd yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar y potensial a gynigir gan y rhain a darpariaethau eraill.

**Argymhelliad 23. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gellid gosod dyletswydd, yn debyg i'r ddyletswydd ar arweinwyr grŵp gwleidyddol i gynnal safonau ymddygiad, ar aelodau annibynnol nad ydynt yn mewn grŵp gwleidyddol ar hyn o bryd.**

**Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.** Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") y fframwaith safonau moesegol i annog aelodau llywodraeth leol i gynnal safonau cyson o ymddygiad.

Mae'r fframwaith moesegol yn ymgorffori cyfres o ddeg egwyddor ymddygiad cyffredinol, codau ymddygiad enghreifftiol statudol a phwyllgorau safonau lleol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau.

Mae'r cod ymddygiad enghreifftiol yn ymgorffori'r egwyddorion cyffredinol uchod ac yn rhoi arweiniad i aelodau ynghylch datgan a chofrestru buddiannau. Rhaid i bob

awdurdod perthnasol fabwysiadu cod ymddygiad yn seiliedig ar y model, a bydd yn ofynnol i'r aelodau roi ymrwymiad ysgrifenedig yn byddant yn cadw at y cod cyn y gallant ymgymryd â'r swydd.

Mae'r ddyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn cyd-fynd â'r fframwaith moesegol, ac mae gofyn i arweinwyr pleidiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel o fewn eu grŵp. Mae'r Bil hefyd yn gwneud y pwyllgor safonau yn destun swyddogaethau newydd, gan gynnwys sicrhau bod arweinwyr grwpiau yn gallu cael gafael ar gyngor a hyfforddiant i gefnogi eu dyletswyddau newydd, a monitro eu cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau newydd.

Byddai'r argymhelliad hwn yn ei gwneud yn ddyletswydd ar aelodau annibynnol i gynnal safonau mewn perthynas â'u hymddygiad eu hunain, ac ystyriaf fod hyn yn efelychu gofynion y fframwaith moesegol.

Rwyf o'r farn bod y fframwaith moesegol yn gwasanaethu llywodraeth leol yn dda. Rwy'n ystyried gwerth posibl comisiynu adolygiad o'r fframwaith i sicrhau bod yr egwyddorion cyffredinol a'r cod ymddygiad enghreifftiol yn parhau'n briodol ac yn gadarn.

Gall aelodau annibynnol ddod at ei gilydd i ffurfio grŵp gwleidyddol, fel y diffinnir yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Pe bai hyn yn digwydd byddai arweinydd y grŵp hwnnw yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd mewn perthynas ag aelodau'r grŵp hwnnw.

**Argymhelliad 24. Rydym yn argymhell diwygio'r Bil i alluogi'r ddyletswydd ar arweinwyr grŵp gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad i gael ei hestyn i gynnwys arweinwyr grŵp mewn cynghorau tref a chymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol.**

**Rwyf yn cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhellion y Pwyllgor; fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhellion hyn.** Mae pob aelod o awdurdod tân ac achub hefyd yn aelodau o brif gyngor. Bydd y ddyletswydd ar arweinydd grŵp gwleidyddol o fewn prif gyngor mewn perthynas ag ymddygiad aelodau'r grŵp yn ymestyn i gymryd camau i gynnal ymddygiad yr aelodau hynny sy'n eistedd ar Awdurdodau Tân ac Achub.

Mae'r egwyddor uchod hefyd yn berthnasol i'r ddwy ran o dair o awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n aelodau o brif cynghorau.

Y sail ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer grwpiau gwleidyddol yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 (a wnaed yn unol ag adran 9(10) ac Atodlen 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989). Nid yw'r rheoliadau hyn yn ymestyn i gynghorau tref a chymuned, gan nad oes sail gyfreithiol ar hyn o bryd ar gyfer creu grwpiau gwleidyddol mewn cynghorau tref a chymuned.

Pe bawn yn cyflwyno gwelliant er mwyn estyn adran 52A newydd Deddf Llywodraeth Leol 2000 i gynghorau cymuned, byddai modd defnyddio pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn adran 52A(3) i ddiffinio grŵp gwleidyddol o'r fath, a thrwy hynny sefydlu sail gyfreithiol ar gyfer grwpiau gwleidyddol o fewn cynghorau tref a



chymuned. Byddai hyn, fodd bynnag, yn golygu bod arweinwyr y grwpiau hynny yn destun dyletswyddau newydd ar unwaith. Byddwn yn gyndyn o wneud hynny heb sicrhau digon o amser i ystyried yn llawn unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl i ddarpariaethau newydd o'r fath a chynnal ymgynghoriad priodol.

**Argymhelliad 25. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu canllawiau ar gynlluniau hyfforddi cyngorau cymuned, yn mynd i'r afael â'r argymhellion gan y Panel Adolygu Annibynnol ar bynciau hyfforddi gorfodol, ac yn cefnogi'r argymhellion hynny.**

**Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Bydd y canllawiau ar baratoi cynlluniau hyfforddi yn ei gwneud yn glir bod yna feysydd craidd lle y dylid hyfforddi pob cyngorydd cymuned i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Bydd y meysydd hyn yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd yn argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol. Rwy'n bwriadu datblygu pecyn hyfforddiant craidd ar gyfer pob cyngorydd cymuned i gefnogi hyn. Fodd bynnag, nid wyf yn bwriadu mandadu hyfforddiant penodol.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r sector i gyd-gynllunio'r pecyn hyfforddi.

**Argymhelliad 26. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ar brif gyngor i lunio adroddiad ar ei berfformiad er mwyn cynnwys dyddiad terfyn blynyddol ar gyfer cwblhau'r hunanasesiadau.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ceisio cyflwyno'r gwelliant angenrheidiol.

**Argymhelliad 27. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfle, wrth lunio rheoliadau, i bennu'r lefel o sgiliau, profiad a chynrychiolaeth sy'n ofynnol gan sectorau proffesiynol a chymunedau gwahanol ar gyfer bod yn aelodau o baneli asesu perfformiad.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor; fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn ar hyn o bryd.** Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i gydgyllunio canllawiau o ran y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd, y bydd yn ofynnol i brif gyngor roi sylw iddynt. Bwriadaf i'r canllawiau hyn gwmpasu nifer o faterion, gan gynnwys y rhai a nodir yn yr argymhelliad hwn.

Os daw'n amlwg bod angen dull gweithredu mwy rhagnododol, gellir paratoi rheoliadau a rhoi ystyriaeth lawn i'r materion y dylid ymdrin â hwy yn y rheoliadau ar sail y dystiolaeth a gafwyd wrth weithredu'r fframwaith perfformiad a llywodraethu.

**Argymhelliad 28. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi eglurhad am y trefniadau ar gyfer cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr yn adrannau 118 a 119.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r gofyniad am gydlynu rhwng rheoleiddwyr yn dyblygu'r gofynion presennol sydd wedi'u cynnwys ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac ni fwriedir i'r gofyniad i gynhyrchu amserlen gyfyngu ar y rheoleiddwyr wrth iddynt gynnal archwiliadau ar fyr rybudd.

Y bwriad yn y Bil, fel o dan Fesur 2009, yw sicrhau, lle bo modd (a phan fo dyddiadau arolygu yn hysbys), y gall rheoleiddwyr gydlynu eu gweithgarwch i leihau'r baich archwilio cyffredinol ar awdurdodau.

**Argymhelliad 29. Rydym yn argymhell bod canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn egluro mai dim ond os oes ystod ehangach o dystiolaeth ar gael y gellir ystyried adroddiad arolygiad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Bennod 2 o Ran 7.**

**Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.** Cyn gwneud rheoliadau ailstrwythuro, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u bodloni bod pob un o'r amodau a nodir yn adran 128 o'r Bil wedi'u bodloni.

Bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried pob opsiwn a defnyddio tystiolaeth o amgylchiadau'r awdurdod o dan sylw. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau ac adolygiadau gan y gwahanol reoleiddwyr wrth gyflawni eu busnes arferol a'r cyfryw weithdrefnau ac ymyriadau yn y cyngor sydd eisoes wedi'u cymeradwyo o dan y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd, gan gynnwys, os na chyflwynwyd cais diddymu, arolygiad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Argymhelliad 30. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda CLILC i ystyried mesurau amgen ar gyfer adfer dyled yr eir iddi drwy beidio â thalu'r dreth gyngor, yng ngoleuni cael gwared ar y gosb o garchar.**

**Cydnabyddaf y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, serch hynny, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Cafodd y gosb o garchar ei dileu drwy reoliadau a wnaed y llynedd, y cwbl y mae'r darpariaethau yn y Bil yn ei wneud yw sicrhau nad oes modd ailgyflwyno'r gosb hon heb ddeddfwriaethol sylfaenol.

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar atal gan fod cryn dystiolaeth bod ymgysylltu'n gynnar â chartrefi i atal dyled rhag digwydd a rhag gwaethygu yn fwy effeithiol na chymau i'w gorfodi i dalu dyledion. Rydym wedi parhau i gynnal ein hymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol sy'n ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r cymorth amrywiol sydd ar gael i helpu cartrefi i dalu'r dreth gyngor. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol i helpu i atal cartrefi rhag mynd i ddyledion.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda CLILC, ymarferwyr profiadol mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau cyngor i wella pob agwedd ar gasglu'r dreth gyngor a rheoli dyledion ac rydym yn parhau i ymrwymo i wneud hynny. Mae'r gwaith hwn yn ein galluogi i nodi a rhannu arferion da i sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir ar ddyledion y dreth gyngor yn gymesur, yn deg ac yn gyson. Datblygwyd Protocol Treth Gyngor Cymru yn rhan o'r gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru a CLILC wedi'i gymeradwyo ac mae'n cael ei roi ar waith ym mhob awdurdod lleol.

**Argymhelliad 31. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau brys â'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru ynghylch eu pryderon o ran y darpariaethau yn adran 162. Dylai trafodaethau o'r fath ddechrau ar unwaith er mwyn galluogi cyflwyno gwelliannau angenrheidiol i'r Bil yn ystod ei gyfnodau diwygio.**

**Rwy'n derbyn yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn.** Roeddm wedi trefnu trafodaethau â chynrychiolwyr yr awdurdodau tân ac achub; fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa bresennol gyda COVID-19, roedd angen blaenoriaethu materion eraill yn y cyfarfodydd hyn. Byddwn yn ceisio aildrefnu cyfarfodydd ar y mater hwn ar yr adeg briodol.

**Argymhelliad 32. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn trafod opsiynau, o fewn deddfwriaeth, i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i'r hawl i dai digonol.**

**Rwy'n derbyn yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn** ac yn cytuno y dylid gwneud rhagor o waith i archwilio'r holl opsiynau. Rwyf yn cydnabod y manteision posibl o osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i'r hawl i gael tai digonol. Fodd bynnag, prin fyddai'r budd o greu dyletswydd o'r fath heb ddealltwriaeth drylwyr o'r hyn y byddai'n ei olygu a gwybod bod yr adnoddau ar gael i gyflawni'r ddyletswydd. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ymchwilio i'r sgôp ar gyfer deddfu mewn perthynas â chydarddoldeb a hawliau dynol eraill, lle mae Dr Hoffman yn chwarae rhan weithredol. Os mabwysiedir hyn, byddai angen bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion i ddeddfu sy'n deillio o'r gwaith hwnnw yn y Cynulliad nesaf.

Julie James AC/AM  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llyr Gruffydd, AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

23 Mawrth 2020

Annwyl Llyr,

### Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ystod Cam 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2020.

Mae nifer o argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud â llunio Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. Yn unol â'r arfer, byddai Aseiad Effaith Rheoleiddiol, a fyddai'n cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, yn cyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn, pan fo hynny'n berthnasol. O ganlyniad, rwy'n derbyn argymhellion 1, 5, 15 a 17 mewn egwyddor.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion eraill y Pwyllgor yn Atodiad A. Nid oedd yn bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Er hynny, rwyf wedi gwireddu'r egwyddorion a'r rhesymeg sylfaenol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi'r ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o ran eu Hadroddiadau Cam 1, ac yn anfon copïau o'r llythyrau at dri Chadeirydd y Pwyllgorau.

Rwy'n edrych ymlaen at gael parhau i gydweithio ag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

Julie James AC/AM  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 80

**Atodiad A: Ymateb i Gasgliadau ac Argymhellion Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Cyllid**

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi dosbarthiad yr etholwyr ledled Cymru ac yn egluro'r dull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gyllid a ddyrannir i gefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag etholiadau a phleidleisio.

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, i ystyried sut orau y gallwn reoli'r effeithiau gwahanol posibl ar awdurdodau lleol unigol.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r costau sy'n gysylltiedig ag awdurdod lleol sy'n penderfynu defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

**Rwyf yn derbyn egwyddor yr argymhelliad.** Rydym eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyfranddaliadwyr eraill, yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol, er mwyn ystyried sut fedrwn reoli'r gwahanol effeithiau potensial ar awdurdodau unigol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol ac yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

**Rwy'n cydnabod y bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu i gronfa ddata etholiadol Cymru gyfan gael ei sefydlu drwy reoliadau. Yn unol â'r arfer, byddai asesiad effaith rheoleiddiol, a fyddai'n nodi dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, yn cael ei lunio i gyd-fynd â'r rheoliadau hyn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y mathau o gynlluniau y gallai fod am eu treialu a'r adnoddau posibl sy'n ofynnol ar gyfer gweithgaredd o'r fath.

**Rwy'n cydnabod y bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** O ystyried maint y diwygiadau etholiadol ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu treialu unrhyw gynlluniau etholiadol cyn etholiadau lleol 2022, nac yn yr etholiadau hynny.

Cyn cynnal unrhyw raglen o dreialon cyflwynir prospectws i awdurdodau lleol a fydd yn nodi amcanion y treialon a'r broses ymgeisio y bydd awdurdodau lleol yn ei dilyn gan roi amcangyfrif o gost y gweithgaredd. Mae'n debygol y bydd goblygiadau cost o ran y treialon, gan gynnwys ymdrin ag unrhyw newidiadau dros dro sydd angen eu gwneud i feddalwedd rheoli etholiadol, staffio, hyfforddiant ac ati. Mae'n anodd rhoi amcangyfrif o'r costau hyn hyd nes y cytunir ar y meysydd thematig a fydd yn cael eu treialu.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o arbedion tebygol darpariaethau sy'n gysylltiedig â threuliau Swyddogion Canlyniadau ac yn cynnwys unrhyw fanylion perthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Y bwriad yw y bydd y darpariaethau hyn yn gwneud y gyfraith sy'n pennu na chaniateir talu ffi bersonol i swyddogion canlyniadau am weinyddu etholiadau lleol yn fwy eglur. Yr egwyddor sy'n sail i'r darpariaethau, felly, yw gwneud y gyfraith yn fwy eglur, nid gwneud arbedion.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach yr arbedion tebygol o ddileu pleidleisiau cymunedol ac a yw'n rhesymol gosod unrhyw gostau system ddeisebau newydd yn erbyn y rhain. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwyf yn cydnabod bwriad argymhelliad y Pwyllgor.** Byddaf yn ystyried y dichonolrwydd, a'r buddiannau posib, o gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig, fydd yn dangos y safiad ariannol tebygol o ddiddymu pŵl cymunedol i'w gymharu â chostau deiseb.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi dadansoddiad sensitifrwydd o'r effaith y gall nifer y deisebau ei chael ar amser staff a chost monitro ac adolygu'r deisebau a dderbynnir. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwyf yn cydnabod bwriad argymhelliad y Pwyllgor** ac mi fyddaf yn ystyried cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd addas yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio a fydd yn cael ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2.

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhagor o waith gyda rhanddeiliaid i ystyried a yw contract darlledu Cymru gyfan yn ymarferol ac ai hwn fyddai'r ateb mwyaf cost-ffeithiol, gan gynnwys costau posibl i awdurdodau lleol gaffael contractau darlledu unigol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r swyddogion yn gweithio gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn o bryd i gydgyhyrchu'r canllawiau a fydd yn sail i amrywiaeth o ddarpariaethau a gynhwysir yn y Bil, gan gynnwys darlledu.

Fel rhan o'r gwaith hwn mae swyddogion wrthi'n ymweld â nifer o gynghorau er mwyn clywed yn uniongyrchol ganddynt am eu trefniadau presennol, y cyfleoedd i wneud mwy a'u pryderon.

Bydd y gwaith hwn yn ystyried manteision ac anfanteision contract darlledu Cymru gyfan er mwyn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau (neu hyd yn oed canllawiau drafft) ar ddarlledu cyfarfodydd, gan gynnwys lle efallai na fyddai'n briodol darlledu, cyn gynted â phosibl.**

**Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Rydym yn cydgynhyrchu canllawiau gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn o bryd. Pan fydd y rhain wedi eu drafftio, bwriedir ymgynghori yn eang er mwyn sicrhau bod cymaint o unigolion a sefydliadau â phosibl yn gallu cyfrannu'n llawn at y canllawiau terfynol.

Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hyn, mae'n debygol y bydd yn rhai misoedd eto cyn y byddwn mewn sefyllfa i gynnal yr ymgynghoriad hwn.

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion goblygiadau cost unrhyw reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys baratoi achos busnes cyn defnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil yn manylu ar gostau drafftio'r rheoliadau hyn i Lywodraeth Cymru gan mai fy mwriad bryd hynny oedd gwneud y rheoliadau hyn cyn cychwyn y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer awdurdodau cymhwysol, a dyna yw fy mwriad o hyd.

Yn unol â'r arfer, bydd y costau i lywodraeth leol yn cael eu cynnwys yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddi Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, gan gynnwys yr hyfforddiant ychwanegol y gellir ei ddilyn o ganlyniad i'r cynlluniau hynny, ac yn sicrhau bod y goblygiadau ariannol wedi'u nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Bwriad y darpariaethau yma yw sicrhau fod cynghorau cymunedol yn ystyried ac yn rheoli eu hanghenion hyfforddiant mewn ffordd effeithiol yn hytrach na chynyddu cyfanswm yr hyfforddiant sydd yn cael eu hymgymryd. Bydd cynghorau cymunedol yn dal i fod yn gyfrifol dros dalu costau hyfforddi cynghorwyr fel y meant ar hyn o bryd. Dyw'r anghenraid i greu cynllun hyfforddiant ddim yn ei hun yn creu galw am hyfforddiant newydd.

**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddeall pa mor sylweddol fydd y newid yn y trefniadau perfformiad i brif awdurdodau unigol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Rydym eisoes yn cydweithio'n agos â llywodraeth leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gydgynhyrchu'r canllawiau a fydd yn cynorthwyo i weithredu'r darpariaethau hunanasesu, er mwyn sicrhau bod

y drefn perfformiad ac asesu newydd yn cael effaith a sicrhau ei bod yn gweithio ar y cyd â dulliau presennol.

Cafodd y darpariaethau ar hunanasesu groeso cyffredinol gan y cynrychiolwyr llywodraeth leol, a nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn cefnogi ac yn croesawu'r darpariaethau hyn. Ychwanegodd y Gymdeithas fod pob awdurdod wedi arfer â'r broses o hunanasesu ac y bydd y darpariaethau hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i awdurdodau hunanasesu er eu budd eu hunain.

Gwnaeth y Gymdeithas y sylw hefyd, gan fod cynghorau wedi ymrwymo i wella gwasanaethau a darparu gwell canlyniadau i'w cymunedau, ei bod yn hyderus y bydd hunanasesiadau cynghorau yn gynhwysfawr, yn gadarn ac yn cael eu defnyddio i sbarduno gwelliannau o ran llywodraethu a darparu gwasanaethau.

Rwyf hefyd yn bwriadu ariannu, drwy'r Gymdeithas, swyddogaeth gwella a chefnogi o dan arweiniad y sector er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r drefn perfformiad a llywodraethu newydd a'r Bil yn ei gyfanrwydd. Bydd y swyddogaeth gwella a chefnogi hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol, aelodau a swyddogion gyda'u huchelgais o wella ac arloesi ar draws y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

**Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei ddadansoddiad o gostau a buddion sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol pan fydd ei hadolygiad yn dod i ben. Os yw'n berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cyfrif am y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ystyried a yw'n fwy priodol a pherthnasol rhoi cyfrif am yr wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil neu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

**Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar yr adolygiad o reffeniw ardrethi annomestig sy'n cael ei golli bob blwyddyn, pan fydd y darpariaethau newydd, sydd â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad osgoi, mewn grym.**

**Rwy'n cytuno â'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn.** Cyn i'r darpariaethau newydd gael eu gweithredu, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â llywodraeth leol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ganfod beth yw'r ffordd orau o fonitro llwyddiant y mesurau i ostwng lefelau osgoi ardrethi annomestig. Byddwn yn ystyried ymhellach pryd a sut orau i ddarparu diweddariad ar y mater hwn, ynghyd â gweithgareddau adolygu ar ôl gweithredu eraill.

**Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ei strategaeth adolygu ôl-weithredu, gan roi ystyriaeth i adnoddau'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal ac yn cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig**

**Rwyf yn cydnabod bwriad argymhelliad y Pwyllgor** ac mi fyddaf yn ystyried cynnwys manylion costau cyfle o gynnal yr adolygiad ar ol gweithredu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio a fydd yn cael ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2.



**Casgliad 1. Cred y Pwyllgor y gallai'r darpariaethau i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa fod wedi bod yn fwy datblygedig cyn cyflwyno'r Bil. Mae'r arfer o gyflwyno Biliau gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol yn nes ymlaen trwy ddiwygio Bil yn osgoi craffu, mae hyn yn anfoddfaol ac ni ddylai barhau.**

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, nid oeddwn am fwrw ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn nes imi weld adroddiad terfynol ymchwiliad Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar bleidleisio i garcharorion. Cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Mehefin a chan fod hwn yn faes deddfwriaeth hynod gymhleth, nid oedd yn bosibl cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil wrth ei gyflwyno. Yr wyf bob amser wedi bod yn glir mai fy mwriad oedd cyflwyno'r darpariaethau hyn fel gwelliannau ac yr wyf wedi rhannu'r rhain ymlaen llaw â'r holl bwyllgorau.

## Item 6.2

Mick Antoniw AC

Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

09 Ebrill 2020

Annwyl Mick,

### Swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.


Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Ebrill 2020; fe'i trafodwyd yn y Pwyllgor Busnes ar 3 Ebrill.

Mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus Coronafeirws Covid-19 sy'n datblygu'n gyflym, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar broses dros dro ar gyfer ystyried is-ddeddfwriaeth, sy'n golygu datgymhwyso Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Mae copi o'r [broses](#) hon ynghlwm; bydd yn weithredol hyd nes y nodir yn wahanol.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf. Bydd hyn yn digwydd yng nghyd-destun trafodaeth ehangach ar waith y pwyllgorau yn gyffredinol dros y cyfnod i ddod.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i swyddogion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am helpu'r Pwyllgor Busnes i ddatblygu ei weithdrefnau brys yn ystod y sefyllfa bresennol.

Yn gywir



**Elin Jones AC**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes



Elin Jones AC  
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

2 Ebrill 2020

Annwyl Lywydd

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â phenderfyniadau diweddar y Pwyllgor Busnes (ar 24 a 27 Mawrth 2020) ynghylch swyddogaethau a chyfarfodydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Er y gall pob un ohonom gytuno bod yn rhaid addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio yn y Cynulliad yn yr amgylchiadau anodd hyn, credaf fod achos cryf dros alluogi'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i barhau i gyflawni ei swyddogaeth graffu, yn enwedig gan ei bod yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru (ac yn wir is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, gyda chydysyniad Llywodraeth Cymru).

Darparwyd pwerau gweithredol helaeth i Lywodraeth Cymru, na welwyd eu tebyg y tu hwnt i gyfnodau o wrthdaro, i fynd i'r afael â natur ddifrifol pandemig y coronafeirws. Hefyd, ni ddylid anghofio bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n paratoui Cymru a'r DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r dasg hon yn cael ei gweithredu'n bennaf drwy raglen helaeth o is-ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig, hyd yn oed yn y cyfnod heriol hwn, fod seneddau'r DU yn darparu'r lefel angenrheidiol o waith craffu a bod gweithredoedd y swyddogion gweithredol yn parhau i fod yn destun system drylwyr a chadarn o wirio ac archwilio - mae hon yn egwyddor gyfansoddiadol hirsefydlog a sylfaenol.

Yn dilyn penderfyniad y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2020 i greu Rheol Sefydlog 34 newydd, a fydd yn caniatáu i gyfarfodydd pwyllgor gael eu cynnal heb eu darlledu (yn dilyn penderfyniad angenrheidiol Comisiwn y Cynulliad), ni welaf unrhyw reswm pam na allai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad barhau i gyfarfod 'yn rhithwir' i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn fy marn i gan ei bod yn ymddangos y bydd y mesurau sy'n mynnu ein bod yn cyfyngu ar ein rhyngweithiadau cymdeithasol ar waith am gyfnod hirach na'r disgwyl.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyflawni gwaith arall sy'n ymwneud â'i swyddogaeth o graffu ar faterion cyfansoddiadol



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ [SeneddDCC@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDCC@cynulliad.cymru)  
☎ 0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ [SeneddLJC@assembly.wales](mailto:SeneddLJC@assembly.wales)  
☎ 0300 200 6565

pwysig. Rwy'n ymwybodol, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, y byddai'n ddoeth i'r Pwyllgor oedi ei waith yn gysylltiedig â'i ymchwiliadau i'r Newid yng Nghyfansoddiad Cymru a Sicrhau bod Cyfiawnder yn Gweithio yng Nghymru, ac i ganolbwyntio ar graffu ar ddeddfwriaeth yn lle hynny. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r galw ar y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i barhau â'r ffrydiau gwaith pwysig hyn wrth i amser fynd yn ei flaen.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cyn gorffen, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi.

Yn gywir,



Mick Antoniw  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.





David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Mr Mick Antoniw AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

21 Ebrill 2020

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu o dan y cytundeb perthynas rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu bod cyfarfod o'r Fforwm Masnach Gweinidogol yn digwydd ar 22 Ebrill.

Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod yn trafod y polisi masnach a'r ymateb economaidd i bandemig Covid-19.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto yn dilyn y cyfarfod.

**Eluned Morgan AC/AM**  
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Minister for International Relations and the Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Elin Jones AC  
Llywydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

24 Ebrill 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 o dan adrannau 45C(1), (3)(c), (4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 a ddaw i rym heddiw ar 24 Ebrill 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 21 Mai 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 90**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 452 (Cy. 102)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws)  
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2 yn rhoi yn lle paragraff (4) o reoliad 3 o'r prif Reoliadau ddarpariaeth fwy hyblyg sy'n galluogi i ofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y prif Reoliadau gael ei derfynu mewn perthynas â busnesau neu wasanaethau penodol (neu ddisgrifiadau o fusnesau neu wasanaethau), categorïau penodol o bersonau neu ardaloedd penodol o Gymru. Mae paragraff newydd (4A) hefyd wedi ei fewnosod yn

rheoliad 3 o'r prif Reoliadau er mwyn ei gwneud yn glir nad yw terfynu gofyniad neu gyfyngiad yn effeithio ar bethau sy'n digwydd cyn i'r terfynu gymryd effaith.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliadau 4, 5, 6 a 6A o'r prif Reoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am fusnesau neu wasanaethau a gynhelir mewn mangreoedd o'r mathau a restrir isod gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre (oni bai bod y personau yn aelodau o'r un aelwyd neu'n ofalwr a'r person y gofelir amdano), sicrhau bod nifer y personau y caniateir iddynt fynd i'r fangre wedi ei gyfyngu er mwyn galluogi i'r mesurau hynny gael effaith, a sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre. Y mangreoedd yw—

- (a) mangreoedd a ddefnyddir fel caffis neu ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal, ysgol, carchar neu sefydliad milwrol neu a ddefnyddir i ddarparu bwyd a diod i bersonau digartref;
- (b) mangreoedd sydd, er ei bod yn ofynnol yn gyffredinol iddynt fod ar gau o dan reoliad 4(4) o'r prif Reoliadau, ar agor at ddibenion darlledu, neu ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, neu i ddarparu gwasanaethau ar lein, dros y ffôn neu drwy'r post;
- (c) llety gwyliau y caniateir iddo aros ar agor i ddarparu llety i bersonau penodol, neu at ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano, neu i ddarparu gwasanaethau ar lein, dros y ffôn neu drwy'r post;
- (d) unrhyw ran o siop y byddai fel arall yn ofynnol iddi gau o dan reoliad 6(2) o'r prif Reoliadau ond y caniateir iddi aros ar agor i ymateb i archebion ac ymholiadau a geir ar lein, dros y ffôn neu drwy'r post (er enghraifft i ddarparu cyfleusterau i godi archebion a osodir ar lein, a elwir fel arfer yn wasanaeth "clicio a chasglu").

Mae rheoliad 4 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i reoliad 8 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â'r gofyniad nad yw person yn gadael y man lle y mae'n byw heb esgus rhesymol, gan gynnwys—

- (a) diwygio paragraff (1) i egluro bod y cyfyngiad ar adael y man lle y mae person yn byw heb esgus rhesymol hefyd yn cynnwys aros i ffwrdd o'r man hwnnw heb esgus rhesymol;
- (b) egluro'r drafftio ym mharagraff (2)(a) er mwyn dileu tawtoleg cael "angen i gael



angenrheidiau sylfaenol” a’i gwneud yn glir y gall personau fynd i fanciau a sefydliadau tebyg i dynnu arian a’i adneuo;

- (c) yn ei gwneud yn glir fod gwneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd yn esgus rhesymol os oes ei angen oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol;
- (d) pennu bod ymweld â chladdfa neu ardd goffa i dalu teyrnged yn esgus rhesymol.

Mae rheoliad 5 yn gwneud diwygiadau i reoliad 10 o’r prif Reoliadau i egluro cymhwysiad y darpariaethau gorfodi.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol pellach i’r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 452 (Cy. 102)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws)  
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

*Gwnaed am 11:45 a.m. ar 24 Ebrill 2020*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru am 2:45 p.m. ar 24 Ebrill 2020*

*Yn dod i rym am 12.01 a.m. ar 25 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, dod i rym a chymhwysio

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a deuant i rym am 12.01 a.m. ar 25 Ebrill 2020.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(1).

### Cyfarwyddydau terfynu

2. Yn rheoliad 3 o'r prif Reoliadau, yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny gan roi sylw i'r angen i atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yng Nghymru â'r coronafeirws, gyhoeddi cyfarwyddyd sy'n terfynu gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas ag —

- (a) busnes neu wasanaeth penodedig neu ddisgrifiad penodedig o fusnes neu wasanaeth;
- (b) disgrifiad penodedig o bersonau;
- (c) rhan benodedig o Gymru.

(4A) Nid yw terfynu cyfyngiad neu ofyniad drwy gyfarwyddyd yn effeithio—

- (a) ar unrhyw gosbedigaeth yr eir iddi mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y Rheoliadau hyn cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu,
- (b) ar unrhyw hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 13 mewn perthynas ag ymddygiad sy'n digwydd cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu, neu
- (c) ar unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi mewn cysylltiad—

---

(1) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)).

- (i) ag unrhyw drosedd neu ymddygiad o'r fath, neu
- (ii) ag unrhyw drosedd honedig o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu,

a chaniateir cychwyn, parhau neu orfodi unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi o'r fath, a chaniateir gosod unrhyw gosbedigaeth neu gosb o'r fath, fel pe na bai'r terfyniad wedi digwydd.”

### **Gofyniad i gynnal pellter corfforol mewn perthynas â mangreoddd penodol**

3.—(1) Mae rheoliadau 4, 5, 6 a 6A o'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 4(5) mewnosoder—

“(5A) Mae paragraff (5B) yn gymwys—

- (a) i fangre a ddefnyddir i gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a), (b) neu (c) o baragraff 2 o Atodlen 1, neu
- (b) pan fo mangre a ddefnyddir i gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1 wedi ei defnyddio at ddiben a grybwyllir ym mharagraff (5).

(5B) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes neu ddarparu'r gwasanaeth, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),
- (b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac
- (c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr).”

(3) Ar ôl rheoliad 5(3A) mewnosoder—

“(3B) Mae paragraff (3C) yn gymwys pan fo mangre a ddefnyddir ar gyfer busnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1 wedi ei defnyddio—

- (a) i ddarparu llety yn unol â pharagraff (3), neu
- (b) i gynnal y busnes yn unol â pharagraff (3A).

(3C) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),
- (b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac
- (c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr)."

(4) Yn rheoliad 6, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Pan na fo mangre wedi ei chau oherwydd ei bod yn fangre sydd ei hangen er mwyn cynnal busnes fel y'i caniateir gan baragraff (2)(a), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),
- (b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac
- (c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr)."

(5) Yn rheoliad 6A, yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i fangre—

- (a) a ddefnyddir i gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Atodlen 1, neu
- (b) y mae rheoliad 6(2A) yn gymwys iddi.

**Cyfyngiad ar bersonau yn gadael y man lle y maent yn byw neu fod y tu allan iddo**

4.—(1) Mae rheoliad 8 o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl “byw” mewnosoder “neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw”.

(3) Ym mharagraff (2)—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) i gael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—

(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hygylwyf;

(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad yr aelwyd, neu aelwyd person hygylwyf;

(aa) i gael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 38 neu 39 o Atodlen 1 neu i adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;”

(b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

“(b) i wneud ymarfer corff, ddim mwy nag unwaith y dydd (neu'n amlach os oes angen hyn oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol), naill ai—

(i) ar ei ben ei hun,

(ii) gydag aelodau eraill o aelwyd y person, neu

(iii) gyda gofalwr y person;”

(c) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

“(ga) i ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;”

(d) yn is-baragraff (i)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle “blentyn y person” rhodder “blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto”;

(ii) ym mharagraff (iii), yn y testun Saesneg, yn lle “Department of Work” rhodder “Department for Work”;

(e) yn is-baragraff (l), yn lle “fo'n angenrheidiol” rhodder “na fo modd gohirio'r symud”.

## Gorfodi

5.—(1) Mae rheoliad 10 o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

- (a) hepgorer “os yw'r person perthnasol yn credu'n rhesymol”;
- (b) yn is-baragraff (a)—
  - (i) ar y dechrau mewnosoder “os oes gan y person perthnasol sail resymol dros amau”;
  - (ii) ar ôl “4,” mewnosoder “5(3C),”;
- (c) yn is-baragraff (b), ar y dechrau mewnosoder “os yw'r person perthnasol yn ystyried”.

(3) Ym mharagraff (2), yn lle “person perthnasol yn ystyried” rhodder “gan berson perthnasol sail resymol dros amau”.

(4) Yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Caiff person perthnasol—

- (a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (2)(a) neu (b), gyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r person perthnasol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;
- (b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (2)(b).”

(5) Ym mharagraff (5), yn lle “ddiben paragraff (4)” rhodder “ddibenion y rheoliad hwn”.

(6) Ym mharagraff (7), yn lle “person perthnasol yn ystyried” rhodder “gan berson perthnasol sail resymol dros amau”.

(7) Yn lle paragraff (8) rhodder—

“(8) Caiff person perthnasol sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (7)—

- (a) i gyfarwyddo cynulliad i wasgaru, neu
- (b) i fynd â pherson i'r man lle y mae'n byw,

ddefnyddio grym rhesymol, os yw'n angenrheidiol, wrth arfer y pŵer.

(8A) Pan fo gan berson perthnasol sail resymol dros amau bod person (“P”) mewn cynulliad yn groes i reoliad 8(5) a'i fod yn blentyn gydag unigolyn (“U”) a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y person perthnasol gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a
- (b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd

neu gyfarwyddiad a roddir gan y person perthnasol i P.

(8B) Ni chaiff person perthnasol arfer pŵer ym mharagraff (7) neu (8A) ond os yw'r person perthnasol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.”

(8) Ym mharagraff (9)—

- (a) yn lle “Caiff person perthnasol” rhodder “Os yw person perthnasol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddibenion atal, neu derfynu, torri rheoliad 9(4), caiff y person perthnasol”;
- (b) ar ôl “rhesymol” mewnosoder “, os yw'n angenrheidiol,”.

(9) Ym mharagraff (12), ar ôl “4,” mewnosoder “5(3C),”.

### **Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

6.—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(e), ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

- “(iv) unrhyw blentyn;
- (v) unrhyw berson sy'n oedolyn hygllwyf o fewn yr ystyr a roddir i “vulnerable adult” gan adran 60(1) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hygllwyf(1).”

(3) Yn rheoliad 4(5)—

- (a) yn is-baragraff (a), ar ôl “Ran 2” mewnosoder “o Atodlen 1”;
- (b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—
  - “(b) o fangre a ddefnyddir ar gyfer y busnesau neu'r gwasanaethau a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1 at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano;”
- (c) yn is-baragraff (c)(ii), hepgorer “archebion”.

(4) Yn rheoliad 5(3A), hepgorer is-baragraff (a).

(5) Yn rheoliad 6(2)(a)(ii), ar ôl “archebion” mewnosoder “neu ymholiadau”.

(6) Yn rheoliad 7—

- (a) yn y testun Cymraeg, yn lle “cam”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “mesur”;

---

(1) 2006 p. 47. Diwygiwyd y diffiniad o “vulnerable adult” yn adran 60(1) gan adran 65(2)(b) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).



- (b) yn y testun Cymraeg, yn lle “cymrir”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “cymerir”;
- (c) yn nhestun Cymraeg paragraff (4), hepgorer “wedi ei gymryd”;
- (d) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—  
“(4ZA) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i’r tir o amgylch amlosgfa, gan gynnwys unrhyw gladdfa neu ardd goffa.”;
- (e) yn nhestun Cymraeg paragraff (5)(b), hepgorer “wedi ei gymryd”.

(7) Yn rheoliad 7(A)(1)—

- (a) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—  
“(aa) rheoliad 4(5B),  
(ab) rheoliad 5(3C).”;
- (b) yn is-baragraff (b), ar ôl “6(1)” mewnosoder “neu (2A)”;
- (c) yn y testun Cymraeg, yn y geiriau ar ôl is-baragraff (d), yn lle “camau” rhodder “mesurau”.

(8) Yn rheoliad 8—

- (a) ym mharagraff (2)(d)—  
(i) yn y testun Cymraeg, yn lle “cymorth” rhodder “cynhorthwy”;  
(ii) ar ôl “cymorth brys” mewnosoder “i unrhyw berson”;
- (b) ym mharagraff (2)(m), yn y testun Cymraeg, yn lle “newid” rhodder “niwed”;
- (c) ym mharagraff (5)(d)(iii), ar ôl “cynhorthwy brys” mewnosoder “i unrhyw berson”.

(9) Yn rheoliad 12(1)(a), ar ôl “4,” mewnosoder “5(3C).”.

(10) Yn Atodlen 1—

- (a) yn nhestun Cymraeg paragraff 2(2)(b), yn lle “pan y cymrir pob cam” rhodder “pan gymerir pob mesur”;
- (b) ym mharagraff 22, ar ôl “ac eithrio” mewnosoder “marchnadoedd da byw a”;
- (c) ym mharagraff 24, ar y diwedd mewnosoder “(ac eithrio arwerthiannau da byw)”;
- (d) ym mharagraff 38, yn lle “a pheiriannau” rhodder “, clybiau cynilo, peiriannau arian parod ac ymgymeriadau sydd, o ran eu busnes, yn gweithredu swyddfeydd cyfnewid arian cyfred, yn trawsyrru arian (neu unrhyw gynrychiolaeth o arian) drwy unrhyw ddull neu sieciau arian parod sydd wedi eu gwneud yn daladwy i gwsmeriaid.”

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

At 11:45 a.m. ar 24 Ebrill 2020

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon